

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 491 • Medi 2018 • 50c

Difrod i Eglwys a Mynwent

Braw oedd ymateb trigolion Dyffryn Ogwen a'r tu hwnt i'r newydd fod difrod wedi ei wneud i Eglwys Coetmor a'i mynwent. Cyflawnwyd y weithred hon o fandaliaeth liw dydd ar y 27ain o Awst, sef Gŵyl Banc Awst, ac roedd teuluoedd yr ardal yn hynod bryderus wrth feddwl am feddau anwyliad a allasai fod wedi eu difrodi neu eu hanharddu. Nid yw halogi, sef difetha safleoedd a gwrthrychau cysegredig, yn drosedd sy'n digwydd yn aml, diolch i'r drefn, ond pan fo'n digwydd mae'n ddychryn.

Lladratawyd croes garreg o un o'r beddau, a thaffwyd bloc carreg o fedd arall drwy un o ffenestri'r eglwys gan achosi gwerth cannoedd o bunnoedd o ddifrod. Hefyd, torrwyd addurniadau ar rai beddau a



chwalwyd blodau beddau dros y lle.

Meddai'r Parch. John Matthews, "Trist iawn fu gweld golygfa o'r fath. Mae'r difrodi'n gwbl ddisynnwyr ac mae'n

ymddangos i mi nad plant neu bobl ifanc a fu'n gyfrifol am hyn ond oedolyn o dan straen emosiynol.

"Eglwys ddi-gefn yn ariannol ydym ni, a daw'r arian i gynnal a chadw'r fynwent o'n casgliad. Felly, bydd rhaid inni agor cronfa arbennig er mwyn talu am yr atgyweirio sydd ei angen, ac rydym yn gofyn yn garedig am gyfraniadau i'n cynorthwyo."

Mewn datganiad, meddai'r Cyng. Rheinallt Puw, "Rydym yn gresynu fod hyn wedi digwydd. Roedd cryn lanast wedi ei wneud, a rhaid diolch i'r aelodau o'r gymuned a fu mor barod i glirio a thacluso rhyw gymaint cyn i'r gwaith atgyweirio gychwyn."

Gofynnir i unrhyw un sydd â gwybodaeth am y digwyddiad gysylltu â'r heddlu ar 101.

Anrhydeddu Meistr yn ei Grefft

Yn Sioe Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd fis Awst eleni cyflwynwyd anrhydedd cenedlaethol i Alaw Jones, Parc Moch am ei gyfraniad



enfawr i grefft y saer maen yng Nghymru. Ar ddathlu hanner canmlwyddiant Cymdeithas Waliau Cerrig Sych Prydain penderfynwyd urddo tri arbenigwr am eu gwasanaeth clodwiw yn cynnal y grefft, ac Alaw a ddewiswyd fel cynrychiolydd amlycaf a mwyaf anrhydeddus Cymru. Treuliodd Alaw ddeugain mlynedd yn y gwaith gan ddechrau yn fachgen tair ar ddeg oed, a datblygu yn un o grefftwyr adeiladau waliau cerrig sych uchaf ei barch a mwyaf ei ddawn yn y wlad.

Mae wedi dysgu ei grefft mewn sawl canolfan addysg genedlaethol ac wedi bod yn feirniad craff ac uchel ei glod mewn cystadlaethau adeiladu waliau ledled Prydain. Un o'i gyfraniadau pwysicaf yw

iddo gasglu a thrysori geirfa arbennig crefft y saer maen - er enghraifft dywed fod gan forthwyl bum enw gwahanol yn Gymraeg, ond meddai gyda gwên, 'Saer maen gwael iawn sy'n mynnu holli a naddu cerrig oherwydd fe ddylai pob carreg gymryd ei lle'n gymesur megis mewn darn o frodwaith.'

Nid fel saer maen yn unig yr adnabyddir Alaw oherwydd mae yr un mor amlwg ei ddawn a'i barch yn y sioe genedlaethol, fel mewn sioeau bach a mawr drwy wledydd Prydain, fel cystadleuydd a beirniad ar dyfu llysiau a blodau. Mae codau pys Alaw yn naw modfedd a mwy mewn hyd a'i datws sioe yn grwn fel peli biliards. Ond nid maint yn unig yw'r gamp. Mae'n rhaid cadw at y blas yn ogystal. Nid oes ei debyg fel garddwr

ond sut, meddech chi, mae'n cael yr holl amser i fod hefyd yn gasglwr cardiau post gan arbenigo yn bennaf ar gardiau Dyffryn Ogwen. Mae ei gasgliad yn eang ond mae hefyd yn dra gwybodus am gefndir a hanes y gwasanaeth post yn ogystal â'r ffotograffwyr a gynhyrchai'r cardiau. Ac i gwblhau'r darlun o'r gŵr amryddawn a gwylaid hwn, mae ef a Betty ei wraig yn deithwyr byd hyderus sy'n ymweld yn fynych ag Awstralia, Canada ac, yn fwyaf arbennig, ag India lle mae croeso tywysogaidd yn eu haros gan un teulu a brofodd haelioni a chymwynasgarwch y saer maen a'i wraig o Barc Moch. Llongyfarchiadau twym galon i Alaw a diolch iddo am ddwyn y fath sylw a chlod i Ddyffryn Ogwen.

Panel Golygyddol

Derfel Roberts
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Orina Pritchard
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

Rhodri Llŷr Evans
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Ieuan Wyn.

Y golygydd ym mis Hydref fydd
Rhodri Llŷr Evans, 2 Rhos y Nant,
Bethesda, LL57 3PP.
07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn
dydd Mercher, 3 Hydref
os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 18 Hydref**,
yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.

DALIER SYLW: nid oes
gwarant y bydd unrhyw
ddeunydd fydd yn
cyrraedd ar ôl y dyddiad
cau yn cael ei gynnwys.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod:

Dyffryn Ogwen
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Bangor
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

Caernarfon
Palas Print

Porthaethwy
Awen Menai

Rhiwlas
Garej Beran

Dyddiadur y Dyffryn

Medi

- 22 Bore Coffi Eglwys St. Tegai.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
25 Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.
27 Cyfarfod Blynnyddol Ynni Ogwen.
Clwb Criced Bethesda am 7.00.
28 Cwmni Drama Llechen Las. “Camp a
Rhemp”. Neuadd Ogwen.
29 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
29 Ffair Grefftau Eglwys St. Cedol.
Neuadd Rhiwlas. 11.00 – 4.00.

Hydref

- 01 Merched y Wawr Tregarth. Gwenan
Gibbard. Festri Shiloh Tregarth am
7.30.
03 Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes. 7.15 – 9.30
04 Sefydliad y Merched Carneddi. “Hen
Greiriau”. Cefnfaes am 7.00.
06 Bore Coffi Gorffwysfan. Cefnfaes.
10.00 – 12.00.
07 Gwasgu afalau. Llys Dafydd,
Bethesda. 11.00 – 3.00.
08 Cyfarfod Blynnyddol Cymd. Hanes
Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am
7.00.
08 Cyfarfod Agoriadol Cymdeithas
Hanes Dyffryn Ogwen. Festri
Jerusalem am 7.30.
09 Cyfarfod Blynnyddol Sioe
Amaethyddol D. Ogwen. Cefnfaes
am 7.30
13 Bore Coffi Cronfa Tracey Smith.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
13 Stondin Eglwys y Gelli . Marchnad
Ogwen. 9.30 – 1.00.
13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.00.
17 Clwb Camera Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes. 7.15 – 9.30.
18 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am
6.45.
19 Darlith Goffa Archesgob John
Williams. Eglwys Sant Tegai am
7.00.
20 Bore Coffi Eglwys St. Cedol.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Rhoddion i'r Llais

- £10 Valmai Jones, 1 Rhes Penrhyn, Rhiwlas.
- £10 David T. Hughes, Cyffordd Llandudno.
- £17 Deri a Megan Tomos, Sychnant, Llanllechid.
- £100 Capel Shiloh Tregarth er cof am Trefor a Gwen Owen.
- £10 Er cof am ben-blwydd y diweddar Raymond Williams, Rhes Douglas, ar 16 Medi, oddi wrth Barbara a'r teulu.
- £30 Er cof am y diweddar John Owen Roberts, Pen y Bryn, ar ei ben-blwydd, 21 Medi, oddi wrth y teulu.
- £4.50 Di-enw.

Diolch yn fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Awst

- £30.00 (106) Beryl Hughes, Meini Gleision, Tregarth.
- £20.00 (27) Glyn Davies, Lôn y Wennol, Llanfairpwll.
- £10.00 (26) Elna Bullock, Arafon, Mynydd Llandygai.
- £5.00 (64) Rita Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda

Gwobrau Medi

- £30.00 (125) Ann Williams, Stryd y Ffynnon, Gerlan.
- £20.00 (11) Orina Pritchard, Rhos y Nant, Bethesda.
- £10.00 (30) Alan Puw, Cefn y Bryn, Bethesda.
- £5.00 (96) Gwynfryn Davies, Ffordd y Gogledd, Caernarfon.

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes - 600853)

Ar y Brig yn y Brifwyl

Rydym yn ymfalchïo fel ardalwyr Dyffryn Ogwen yn llwyddiant dau a anwyd ac a fagwyd yn y fro yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Enillodd Manon Steffan Ros, gynt o Rhiwlas, y Fedal Ryddiaith, ac enillodd Gareth William Jones, gynt o Goetmor, y wobr gyntaf am gyfansoddi drama radio.

Llongyfarchwn hwy'n galonnog, a dymuno'r dda iddynt gyda'u gwaith creadigol yn cyfrannu i'n diwylliant ac yn dwyn clod i fro eu magwraeth a'u haddysg gynnar.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

Gwerthu Llais Ogwan

Diolch yn fawr i Terry Hughes am werthu'r Llais yn yr ardal am 2 flynedd ond sydd bellach wedi ymddeol. Diolch yn fawr i'r gwerthwyr newydd, sef Gethin Armstrong a Rhian Jones, fydd yn cymryd drosodd o hyn ymlaen. Mae Llais Ogwan yn dibynnu llawer ar ei gwirfoddolwyr, ac yn ddiolchgar iawn am bob cymwynas.

Ymddeol

Mae drysau Gors yr Eira wedi cau ar ôl 23 o flynyddoedd. Mae Einir a David Frodsham wedi ymddeol, ac fe ddymunwn y gorau iddynt yn y dyfodol. Diolch i bobl yr ardal am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Arholiadau

Mae llawer o bobl ifanc y pentref wedi gwneud yn dda yn eu arholiadau. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch, a phob dymuniad da i chwi yn y dyfodol.

Eglwys St Ann a St Mair

Sul
1af a'r 3ydd: 9.30 y.b. Boreol Weddi
2ail a'r 4ydd: 9.30 y.b. Cymun Bendigaid
Sul 30ain Medi 10.00 y.b. Gwasanaeth Diolchgarwch (Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn).

Estynnwn groeso cynnes i chwi oll ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Cofiw'n am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan i chwi oll.



Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAG



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

Ysgol Bodfeurig

Ffarwél a chroeso

Ar ddiwedd y flwyddyn ysgol daeth amser i ffarwelio gyda phlant Blwyddyn 6. Pob lwc iddynt yn yr ysgolion uwchradd. Maent yn ffodus iawn i'ch cael chi! Daeth yr amser hefyd i ffarwelio gyda Mr Andrew Walton sydd wedi gadael i ganolbwyntio ar ei yrfa canu - pob lwc Mr Walton a pheidiwch â bod yn ddiarth!

Dymuna holl staff yr ysgol groesawu pawb yn ôl i'r ysgol am beth sy'n argoeli i fod yn flwyddyn brysur arall! Hoffwn estyn croeso cynnes i'r plant sy'n cychwyn gyda ni am y tro cyntaf - dw i'n siwr y byddwch yn hapus iawn acw! Croeso hefyd i aelodau newydd o staff sy'n ymuno gyda ni. Bydd Mrs Jones yn dysgu dosbarthiadau Tryfan ac Ogwen tra bydd Anti Rhian yn gweithio yn nosbarth Idwal. Croeso mawr i chi.

Thema newydd

Cadwch lygaid allan yn y Llais mis nesaf am fwy o hanes ein thema newydd. Bydd dosbarth Idwal yn dysgu am faw, annibendod a chymysgeddau, dosbarth Tryfan yn edrych ar gestyll a dreigiau, tra bo dosbarth Ogwen yn edrych ar gourmet byd-eang! Tymor prysur yn wir.

Te Prynhawn

Ddydd Gwener, Medi 28ain bydd yr ysgol yn cynnal te prynhawn yn neuadd yr ysgol. Rydym yn gwneud hyn i godi arian tuag at elusen Macmillan. Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno gyda ni rhwng 2 a 3 o'r gloch.



Dyma rai o blant dosbarthiadau Tryfan ac Idwal yn barod am y flwyddyn newydd

Calendr Llais Ogwan 2019

Ar ran Llais Ogwan a Chlwb Camera Dyffryn Ogwen, hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd ddelweddau ar gyfer Calendr 2019.

Derbyniwyd dros 50 o ddelweddau, a dewisiwyd 13 o safon uchel i'w cynnwys yn y calendr newydd. Yn anffodus, 'roedd rhai o'r delweddau yn anaddas gan eu bod mewn fformat anghywir; fformat tirlun oedd ei eisiau ac nid fformat

portread, ac nid oedd modd tocio rhai o'r delweddau i weddu i'r Calendr.

Diolch i aelodau'r Clwb Camera am eu gwaith yn didoli a dewis y delweddau, a diolch i Walter Williams am ei gefnogaeth.

Bydd y Calendr, ar ei newydd wedd - gyda mwy o le i'ch nodiadau, ar werth cyn diwedd mis Medi.

Emyr Roberts, Clwb Camera Dyffryn Ogwen.



Manylion Cyswllt
Cyngorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cyngorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cyngorydd.dafydddownen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cyngorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cyngorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

 @CyngorwyrDyffrynOgwen

 @PlaidCymruOgwen

Y Gerlan

Caren Brown
Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda
LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn,
2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ
☎ 01248 208254 / 07880 702640
heleddselwyn@hotmail.com

Llwyddiant a llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu’n llwyddiannus mewn unrhyw arholiad dros yr haf a phob dymuniad da i chi ar unrhyw gychwyn newydd yn eich gyrfa – boed hyn yn y 6ed dosbarth, gwaith, coleg neu brifysgol.

Un fydd yn teithio ymhell i’r brifysgol y tymor yma fydd Elin Cain Roberts, Ffordd Gerlan. Bydd yn treulio blwyddyn allan eleni yn astudio ym Mhrifysgol Nantes, Llydaw y mis yma ac yna ymlaen i Brifysgol Barcelona ddechrau’r flwyddyn nesaf. Pob dymuniad da iti, Elin, ac edrychwn ymlaen at glywed dy hanesion.

Salwch

Gyrrwn ein cofion cynhesaf at Mr Len Williams (Len Post) Ffordd Gerlan sydd yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd. Brysiwch wella, Len, a gobeithio y cewch chi ddod yn ôl adref yn fuan.

Rydym yn meddwl hefyd am Mrs Myfanwy Jones sydd yn dal heb ddod adref i Gwernydd eto. Mae yng Nghartref Plas Ogwen ar hyn o bryd ac yn ddiolchgar iawn i’r staff yno am ei gofal. Hoffai ddiolch hefyd i deulu a ffrindiau sydd wedi bod yn garedig iawn efo hi dros y misoedd diwethaf tra yn yr ysbyty a’r cartref. Gobeithio y cewch chithau hefyd ddod yn ôl adref i Gerlan yn fuan, Anti Myf.

Colled

Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am farwolaeth Glyn Ellis, Ciltrefnus ym mis Mehefin. Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Wendy, Lynn, Steven a’u teuluoedd. Hoffai’r teulu ddiolch i bawb am eu

cydymdeimlad a’u geiriau caredig yn ystod yr amser anodd yma.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Sioned Lewis, Stryd y Ffynnon a gollodd ei thad, Llewelyn Roberts, Lluest, Dolwyddelan yn ddiweddar. Gyrrwn ein cydymdeimlad i’r teulu i gyd, Sioned, ac i dy fam, Eigra Lewis Roberts.

Ddiwedd mis Awst eleni, collodd Caren Brown a Richard Roberts Ffordd Gerlan eu nai, a chefnder i Elin Cain. Roedd Osian Glyn Jones yn 26 mlwydd oed ac yn byw ym Mhenrhyndeudraeth. Brwydrodd yn ddewr yn erbyn cancr am dros 3 mlynedd heb gwyno’r un waith. Hoffai’r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a’u geiriau caredig.

Croeso i Gerlan

Estynnwn groeso cynnes i Eleri Ellis-Williams a Deion Jones (neu Lel a Dei fel mae eu ffrindiau yn eu hadnabod) sydd wedi symud i’w cartref newydd yn Stryd Fer. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn efo ni yn Gerlan.

Pen-blwydd arbennig

Bydd Chris O’Marah, Gwernydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau Medi. Gobeithio y cei di hwyl yn dathlu efo teulu a ffrindiau, Chris!

Tân ar y Wern

Ddechrau Gorffennaf, a’r haul yn disgleirio’n danbaid, penderfynais i a’r ferch fynd i ymdrochi yng Ngheunant afon Gaseg gan fod Llyn Droell yn llawn. Wrth ddringo i fyny o’r pwll, sylwais fod tân wedi cychwyn ar y Wern a hwnnw’n cydio. Gan fod fy ffôn gen i, deialais 999 yn syth a galw’r frigâd dân. Yn ffodus iawn, cafodd y tân ei ddiffodd. Wrth gyrraedd pen Stryd Goronwy, gwelais injan dân ac mi es draw i ddiolch i’r gweithwyr. Pwy oedd yn yr injan ond neb llai na Wil Tân ei hun, a chawsom sgwrs am y tanau peryg eraill oedd wedi eu cynnau yn yr ardal. Dan ni wedi bod yn lwcus iawn o’r gwasanaeth yma dros y misoedd diwethaf, a diolch byth na chafodd neb ei frifo! – Caren.



Hufen Iâ Cartref

Cynhwysion

3000ml o lefrith ½ sgim.
4 melynwy.
Fanila.
75g o siwgwr (caster).
1 llwy de o flawd corn.
300ml o hufen dwbl.

Dull

Cynhesu’r llefrith ar wres isel (peidiwch â’i ferwi).
Curwch y melynwy, y siwgwr, y fanila a’r blawd corn nes bod y cwbl yn llyfn.
Yna, gan ddal i guro, tywalltwch y llefrith i mewn fesul dipyn.
Wedyn, tywalltwch y cwbl i’r sosban a’i goginio ar wres isel, gan ei droi efo llwy bren yn gyson tan bydd o’n ddigon trwchus I guddio cefn y llwy. Tywalltwch y cwstard i bowlen. Rhowch cling-film dros y bowlen a’i rhoi yn yr oergell i oeri.

Curwch yr hufen yn ysgafn nes bydd yn dechrau twchu.
Ychwanegwch y cwstard a’i droi efo’r llwy bren.
Rhowch y cymysgedd mewn bocs tuperware (neu rywbeth tebyg) a’I roi yn y rhewgell am 6 awr.
Fforciwch o ddwywaith i dorri’r rhew yn ystod y 3 awr gyntaf.
Tynnwch o allan o’r rhewgell ryw 15-20 munud cyn ei fwyta.

Bwytwch o efo mefus, mafon a llus - nefoedd!

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0808 164 0123

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis - 20:00

ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth - Gwener 18:00 - 23:00
Sadwrn 15:30 - 00:00
Sul 13:00 - 15:00 a 20:00 - 23:00

douglasarmsbethesda.com
01248 600219



DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
logsi coed

01248 605207

Bethesda

Mary Jones, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd
Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

Penblwyddi Arbennig

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i ddwy gyn-athrawes yn ysgolion Abercaseg a Phen y Bryn. Y ddwy yn dathlu eu pen-blwydd yn 90 mlwydd oed, sef Mrs Rita Evans, Erw Las, a Mrs Medi Williams, Ystad Coetmor.

Deunaw Oed

Un a ddathlodd ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Gorffennaf, oedd Alec Jones, Bryn Caseg. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Ysbyty

Yn ystod yr haf bu sawl un yn yr ysbyty yn derbyn triniaeth, a da deall eu bod gartref ac yn gwella. Cofion cynnes atoch i gyd: Mrs Gwenno Evans, Coetmor; Mr Dewi Morris, Arafa Don; Mr Heddwyn Griffith, Adwy'r Nant; Adam Boggs, Glanogwen; Ian Adams, Abercaseg; Mr Dewi Hughes, Glanffrydlas; Mrs Rhiannon Efans, Pant.

Diolch

Dymuna Hilda Campbell, Erw Las, ddiolch i bawb o'r teulu ffrindiau a chymdogion am bob cymorth, ymweliad a'r holl dymuniadau da a dderbyniodd yn ystod y cyfnod diweddar. Mae Hilda wedi derbyn triniaeth ac rydym yn anfon ein dymuniadau gorau ninnau atoch.

Priodas Ddiemwnt

Ar 2 Awst bu i Thomas a Heddwyn Jones, 3 Rhos y Coed ddathlu eu Prodas Ddiemwnt. Llongyfarchiadau a chofion cynnes atoch eich dau.

Llongyfarchiadau a chofion gorau hefyd i'r Parchedig John a Mrs Elina Owen. Hwythau wedi dathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar 9 Awst.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at y teuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef:

Lynne a'r teulu, Adwy'r Nant, a Wendy a'r teulu, Maes y Garnedd. Collodd y ddwy eu tad yn y Gerlan, sef y diweddar Mr Glyn Ellis ar 18 Gorffennaf.

Mr a Mrs. Arwyn Oliver a'r teulu, Ffordd Bangor, yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl yn 97 oed ar 31 Awst, sef y ddiweddar Mrs Margaret Oliver, gynt o Fynydd Llandygái.

Marwolaethau

Mr Alan Lynch
Ar 30 Gorffennaf, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Alan Lynch, Adwy'r Nant, cymar caredig i Kathy. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, 7 Awst. Cydymdeimlwn â chwi i gyd.

Mr Robert Williams

Yn sydyn ar 7 Awst, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Robert Williams, 1 Dolgoch. Priod annwyl Mrs. Jean Williams, tad gofalus Carolyn a Robert Wyn, a thad yng nghyfraith i Meirion. 'Roedd yn frawd i'r diweddar Danny a Raymond, ac yn frawd yng nghyfraith i Mrs Barbara Williams, Rhes Douglas. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor ddydd Mawrth, 14 Awst, dan arweiniad y Parchedig Christina McCrea. Claddwyd ei lwch ym mynwent Eglwys Coetmor. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Mr Robert Henri Jones

Ar 8 Awst, yng Nglan Rhos, Brynsiencyn, bu farw Mr Robert Henri Jones, Bryn Coetmor, yn 51 mlwydd oed. Mab annwyl Mrs Marie-Annick Jones a'r diweddar Mr Dafydd Jones, Rhos y Coed. 'Roedd yn gymar annwyl i Val a thad Nicky, Tommy a Davey, ac yn frawd caredig i Anne. Bu'r gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Ddr. Hugh John Hughes. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Diolch

Dymuna Jean Williams a'r teulu, 1 Dolgoch, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Raymond ar ddechrau mis Awst. Diolch hefyd am y rhoddion hael o £800.00 er cof amdano. Mae'r arian wedi ei drosglwyddo i Sefydliad y Galon.

Dymuna Rita Evans ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd ym mis Gorffennaf. Diolch o galon!

Dymuna Gerald, Karen a Cara, Erw Las, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd yn ystod eu profedigaeth o golli Ralph Aston, tad, tad yng nghyfraith a thaid annwyl a charedig.

Gorffwysfan

Ar ddydd Mercher, 25 Gorffennaf, aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith i ymweld â Gerddi Trentham. Cafwyd diwrnod ardderchog, y tywydd yn braf a phawb wedi mwynhau.

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus i Gwenllian Haf, Bryn Meurig Bach, a ddathlodd ei phen-blwydd yn 18 oed ar 30 Mehefin. Llongyfarchiadau

hefyd am basio'r prawf gyrru yn gynharach eleni. Pob dymuniad da i ti yn y dyfodol.

Eglwys Crist, Glanogwen

Wardeniaid
Penodwyd dwy Warden newydd ar gyfer yr eglwys, sef Mrs Glenys Morgan a Mrs Barbara Owen.

Gwasanaethau

Cynhelir gwasanaethau yn yr eglwys fel a ganlyn:
Sul cyntaf yn y mis -
Cymun Bendigaidd am 8 y bore
Pob Sul: Cymun Bendigaidd Corawl am 11yb (Os 5ed Sul yn y mis - Gwasanaeth ar y cyd gyda eglwysi St. Mair, Mynydd Llandegai a St Cedol, Pentir)
Pob bore Mercher: Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog. Croeso cynnes i bawb.
Mae nifer o drigolion Plas Ogwen yn mwynhau gwasanaeth byr o'r Cymun Bendigaidd bob mis dan ofal y Barch. Christina MacRea gyda Mrs Glenys Morgan yn gymorth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi mwynhad garw i'r trigolion.

Codi arian

Mae ymgyrch ar dro i drefnu gweithgareddau codi arian i gynnal Eglwys Glanogwen a chadw'r drysau ar agor, gan ei bod yn adeilad hardd ar gyfer defnydd yr ardal gyfan. Mae'n dasg anodd gyda chostau mor uchel i'w chynnal, a'r aelodaeth, fel nifer o eglwysi heddiw, yn dirywio'n gyson.

Mynwent Coetmor

Siom enfawr oedd gweld y difrod a wnaed i'r fynwent a'r eglwys ddydd Llun, Gŵyl y Banc. Maluriwyd llawer o offer ar y beddi, lluchiwyd llawer o flodau a roddwyd er cof am anwyliaid, a thorrrwyd ffenestr yn yr eglwys. Mae trefniadau ar y gweill i drwsio'r ffenest, sydd o fath arbennig ar gyfer eglwysi. Mae'n diolch fel aelodau Glanogwen yn ddifffuant iawn i'r rhai caredig fu yno yn clirio'r llanast a chael trefn yn ôl. Diolch o galon i bawb.

Modurdy Central

M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Drysau'n agor i drysorau pensaernïol Gwynedd a Chonwy

Bydd nifer o adeiladau, gerddi a lleoliadau diddorol ac anarferol hanesyddol ledled Conwy a Gwynedd yn agor i'r cyhoedd am ddim y mis Medi hwn. Fel rhan o gynllun 'Drysau Agored' CADW, bydd mwy na 50 adeilad ar draws Conwy a Gwynedd yn agor eu drysau i'r cyhoedd fel rhan o raglen flynyddol sy'n dathlu treftadaeth bensaernïol Cymru.

Drwy gydol mis Medi, bydd digwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn lleoliadau ar draws y ddwy sir, gyda chyfleoedd i drigolion lleol ac ymwelwyr gael blas ar hanes a threftadaeth yr ardal. Eleni bydd y rhaglen yn croesawu ychwanegiadau newydd, gan gynnwys Castell Gwrych yn Abergele - tŷ gwledig rhestredig Gradd I sy'n atgynhyrchu pensaernïaeth Ganoloesol. Mae mewn 250 erw o erddi a thiroedd ac mae'n cynnig golygfeydd helaeth dros barcdir blaenorol gyda golygfa dros Fôr Iwerddon.

Bydd hefyd cyfle i ddathlu treftadaeth llechi cyfoethog Gwynedd drwy ymweld â nifer o safleoedd sydd wedi eu cynnwys yn enwebiad Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru, gan gynnwys gweld dros och eich hun offer meddygol gwreiddiol yr 1800au yn yr Ysbyty Chwarel, Llanberis.

Dywedodd y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi Cyngor Gwynedd: "Mae Drysau Agored yn gyfle gwych i fynd allan ac archwilio'r gorau sydd

gan ein dwy sir i'w gynnig mewn treftadaeth bensaernïol. O eglwysi hanesyddol ac amgueddfeydd i erddi a chestyll, mae rhywbeth at ddant pawb. Yn ystod mis Medi i gyd, mae'r rhaglen yn cynnig diwrnod allan gwych, rhad ac am ddim i'r teulu cyfan, ac wir yn dangos y cyfraniad mae ein treftadaeth yn ei wneud i'r profiad ymwelwyr yng Nghonwy a Gwynedd."

Meddai'r Cynghorydd Mark Baker, Aelod Cabinet Cyngor Conwy dros Gymunedau: "Mae Drysau Agored yn gyfle gwych i fynd allan ac archwilio'r gorau sydd gan ein dwy sir i'w gynnig mewn treftadaeth bensaernïol. O eglwysi hanesyddol ac amgueddfeydd i erddi a chestyll, mae rhywbeth at ddant pawb. Mae'r rhaglen yn cynnig diwrnod allan gwych i'r teulu cyfan, ac wir yn dangos y cyfraniad mae ein treftadaeth yn ei wneud i'r profiad i ymwelwyr yng Nghonwy a Gwynedd."

Mae manylion yr atyniadau a fydd yn agored fel rhan o 'Drysau Agored' wedi'u cyhoeddi mewn taflen a gynhyrchwyd ar y cyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Gwynedd. Mae copïau ar gael o Ganolfannau Croeso a safleoedd treftadaeth ar draws Conwy a Gwynedd. Gallwch lawrlwytho'r daflen a dod o hyd i fwy o wybodaeth am Ddrysau Agored yn www.conwy.gov.uk/drysauagored. Gall sefydliadau diwylliannol gofrestru o hyd ar gyfer eu cynnwys yn www.cadw.llyw.cymru/drysauagored

Llythyrau

Annwyl Olygydd

Rwy'n siŵr fod llawer fel finnau wedi mwynhau darllen atgofion Wyn Thomas, 'Plentyn y Rhyfel', dros dri mis yn y Llais.

Cefais fy ngeni yn Carneddi ar ddechrau yr Ail Ryfel Byd ac felly rwy'n cofio'r ddwy flwyddyn olaf yn enwedig o glir.

Roedd yr ifaciwîs wedi bod yn ein plith ers amser ond wna' i byth anghofio un bachgen o Lerpwl.

Roedd yn cario bara o fecws Charles yn Water Street i wahanol dai wrth ganu "You are my Sunshine" ar dop ei lais. Fel "Sunshine" y daeth pawb i'w adnabod ac rwy'n meddwl y gwnaeth o ei gartref ym Methesda fel eraill ar ôl y rhyfel. Ydw i yn iawn?

Ar ddiwedd y rhyfel, roedd pawb eisiau dathlu'r llwyddiant a llawer stryd yn cael te parti.

Baneri yn mhob man, ac yn agos at ddiwrnod 'VE' cariyd darnau o'r awyrennau oedd wedi disgyn dros yr ardal (wedi eu cadw ar y darn tir ger cae pêl-droed Bethesda) i dop tomen lechi Pantdreiniog i wneud coelcerth.

Roedd milwr wedi dod adref efo gwn fflêr a thaniodd un efo clec anferth. Goleuwyd pob man ac roedd fflamiau'r coelcerth yn para am oriau. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'r domen wedi mynd i helpu llenwi'r twll mawr.

'Sgwn i ydi eraill fel fi yn cofio cerdded o ysgol Pen y Bryn i'r stryd fawr a sefyll o flaen capel Jerusalem am amser hir. Yn y diwedd, daeth modur mawr du ac ynddo oedd y Brenin George a'r Frenhines ar eu ffordd yn ôl i Llundain mae'n siŵr.

Yn olaf, diolch mawr i Wyn Thomas am rannu ei brofiadau efo ni, ac i Derfel Roberts am ei gyfraniad o.

Yn gywir,

John Ffranccon Davies

Windsor

Annwyl Olygydd,

Byddem yn ddiolchgar petaech yn ystyried cefnogi cynllun

Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn eu hymdrechion i gynhyrchu a hyrwyddo Llyfrau Llafar Cymraeg.

Erbyn hyn mae ein Llyfrau Llafar Cymraeg ar fenthg gan rhan fwyaf o brif Lyfrgelloedd Cymru.

Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn recordio a chynhyrchu ystod eang o Lyfrau Llafar sydd ar gael yn eich llyfrgelloedd lleol.

Y llyfrau diweddaraf ar gyfer plant a phobol ifanc a recordiwyd yw'r canlynol:

- MISS PRYDDERCH A'R CARPED HUD (Mererid Hopwood)
- SAITH SELOG - ANTUR AR Y Ffordd Adref : addasiad Manon Steffan Ros a DAL ATI GWEN (Siân Lewis)
- MAES Y MES - Dwy stori gan Nia Gruffydd : RHOSWEN A'R EIRA a MWYAREN A'R LLEIDR
- NA, NEL! Wps! ac UN TRO (Meleri Wyn James)
Gellir eu benthg yn rhad ac am ddim trwy gysylltu â'ch llyfrgell leol.

Gyda llawer o ddiolch.

Steven Thomas

Prif Weithredwr

325 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1Y 01248 353604

admin.nwsb@btconnect.com

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

Y Ganolfan Gymunedol

Dymuna'r Cyng. Dafydd Owen, Cadeirydd y Ganolfan Gymunedol, ddiolch yn fawr ar ran y pwyllgor i gwmni Jones a Whitehead am y gwaith o adnewyddu'r goleuadau yn y neuadd - y cyfan am ddim. Gwerthfawrogir haelioni'r cwmni ac mae defnyddwyr y Ganolfan yn canmol y gwelliant yn fawr. Hefyd, hoffai'r Cadeirydd ddiolch i staff y cwmni am eu gwaith glân a threfnus dros nifer o flynyddoedd.

Llwyddiant academiaidd

Llongyfarchiadau mawr i bawb o'r ardal sydd wedi llwyddo yn eu arholiadau coleg, ysgol ac mewn gwaith. Pob dymuniad da i'r dyfodol. Rydym yn falch o bob un ohonoch.

Profedigaethau

Ar Awst 1, yn Ysbyty Gwynedd Bangor, bu farw'r Parchedig Ddr Alwyn Roberts, Brithdir, 43 Tal y Cae, Tregarth, yn 84 mlwydd oed. Anfonwn ein cydymdeimlad fel ardal at ei briod Mair, ei fab Glyn, ei ferch yng nghyfraith Bethan Catrin a'i wyrion Lois, Lea a Daniel. Bu ei angladd yng Nghapel Berea Newydd, Bangor, a rhoddwyd ef i orffwys ym Mynwent Eglwys Pentir.

Trist iawn yw cyhoeddi marwolaeth Tudur Hughes, 13 Ffordd Tanrhiw, yn Ysbyty Gwynedd ar Awst 23 ac yntau yn 84 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i briod Anne, ei ferched Caryn a Donna a'i wyrion a wyres Ben, Tom, Jac, Sam a Katy, ei frawd Hugh a gweddill y teulu yn eu galar. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor ar Awst 31.

Anrhydedd arbennig

Anrhydeddwyd Alaw Jones, Parc Moch, Bethesda, yn Sioe Llanelwedd eleni am ei waith rhagorol ar hyd y blynyddoedd fel saer maen yn ardal Dyffryn Ogwen ac ar hyd a lled gwledydd Prydain. Un ar ddeg mlynedd er iddo ymddeol anrhydeddwyd Alaw gan Gymdeithas Waliau Sych a gan fod y gymdeithas yn dathlu 50 mlynedd o fodolaeth eleni cafodd tri saer maen glod arbennig am eu gwaith crefftus a hynny am flynyddoedd lawer. Llongyfarchiadau calonnog Alaw a diolch am eich gwaith artistig a chrefftus o'n cwmpas yma yn Nyffryn Ogwen. Rydym yn gobeithio y gwerthfawrogir eich gwaith. Diolch Alaw.

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Mae tymor newydd o'r gangen wedi

cychwyn ers Medi 3 ac mae croeso mawr i unrhyw un a hoffai ymuno yn Festri Capel Shiloh, Tregarth am 7.30 ar y nos Lun gyntaf ym mhob mis. Cyfle ardderchog am sgwrs, siaradwyr difyr, lluniaeth ysgafn, teithiau a chant a mil mwy o bethau. Bydd y noson nesaf nos Lun, Hydref 1 pan gawn gwmni'r gantores werin Gwenan Gibbard. Dyma noson arbennig dan nawdd Noson Allan Fach ac mae'n agored i bawb a hoffai ymuno, a chawn gwmni rhai o aelodau Cangen Rhiwas.

Diolch

Dymuna Bess a Fred Buckley, Maes Ogwen ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu holl garedigrwydd tra oedd Bess yn derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd am yr holl alwadau ffôn, cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd. Meddai Bess eisiau dweud bod ei dyled yn enfawr ac yn hynod ddiolchgar i bawb am bopeth.

Cydymdeimlad

Yng Nghartref Ceris ger Pont y Borth ar 8fed o Fehefn yn dawel yng nghwmni ei deulu, bu farw Glyn Williams, Lynona, Tregarth. Roedd Glyn yn 88 mlwydd oed, yn ffyddlon briod â Mona, yn dad cariadus i Steven, Shan a Gwyn, a thaid annwyl i Mathew, Paula, Emily a Lucy. Hoffai'r teulu ddiolch i'r dorf a ddaeth i'r angladd, a diolch am yr holl arian a roddwyd ac a fydd nawr yn mynd at elusen Help the Aged.

Clwb Cant Tregarth

Gorffennaf

7 David Harfield £15

29 Anna Jones £10

57 Peter Roberts £5

Awst

27 Joyce Jones £15

57 Peter Roberts £10

18 Carys Williams £5

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gwen ac Alwyn Owen, 25 Ffordd Tanrhiw. Collodd Gwen ei thad yn Llanbedrgoch ym Môn fis Gorffennaf.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Gwen ac Alwyn enedigaeth Seren Haf i Siôn Penri, eu mab, a Kirsty fis Awst.

Croeso adref

Fis Awst treuliodd Goronwy Roberts beth amser yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth. Erbyn hyn mae o gartref ym Mro Syr Ifor ac yn diolch am yr holl gardiau a galwadau ffôn.

Derbyn triniaeth

Mae Sioned, merch Goronwy a Sulwen Roberts, Bro Syr Ifor hefyd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd fis Awst. Gobeithiwn ei bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Profedigaeth

Ddiwedd Awst, bu farw mab arall o'r pentref, sef Tudur Môn Hughes, 13 Ffordd Tanrhiw, gŵr Ann a thad Caryn a Donna. Cydymdeimlwn â'r teulu.

Capel Shiloh Tregarth

Oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch pob Sul.

Medi 16 Dafydd Hughes, Caernarfon

Medi 23 Glyn Owen, Llanwnda

Medi 30 Dr Jennie Hurd

Hydref 7 Richard Gillion

Hydref 14 Oedfa Deulu y Diolchgarwch,
Dewi Morris, Porthmadog

Blaenoriaid yn dathlu

Pen-blwydd hapus iawn i un o'n blaenoriaid yn Shiloh a ddathlodd ei ben blwydd yn 90 oed ar Awst 23, sef Wynne Roberts. Ers y dathlu cafodd ddamwain a syrthio ar y stryd yn Llandudno a dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

Mae un arall o flaenoriaid Shiloh yn dathlu ei phen-blwydd yn 98 mlwydd oed ym mis Medi, sef Mrs Edith Hughes, Erw Faen. Pen blwydd hapus llawn a iechyd i chithau Edith gan bawb o aelodau Shiloh a gan eich teulu a'ch ffrindiau oll.

Cydymdeimlo

Daeth profedigaeth i ran Paul a Ffion Rowlinson, Bethesda yn ystod Mis Awst. Bu farw tad Paul, oedd yn 92 oed ac yn byw yn Rhydychen a chydymdeimlwn gyda chi fel teulu yn eich colled.

Mair Owen, Graig Pandy

Ar ôl cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri yn ystod mis Gorffennaf, mae Mair yn ôl adref yn Gwêl y Don ac yn gwella'n dda. Dathlodd ei phen-blwydd yn 95 oed ar Awst 20fed. Dymuniadau gorau iddi oddi wrth Ann, Selwyn a'r teulu.

Gair o ddiolch

Dymuna Gwyneth Aston a'r teulu 13 Maes Ogwen ddiolch yn fawr iawn i gymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn ddiweddar yn dilyn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, tan yng nghyfraith a thaid annwyl, sef Ralph Aston. Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn a'r rhoddion. Diolch i'r ymgymmerwr, Gareth Williams, am yr holl drefniadau gofalus. Diolch hefyd i staff Caffi Coed y Brenin am baratoi lluniaeth.

Eglwys y Santes Fair
Gwasanaethau
Medi 16 9.30yb Boreol Weddi
23 Dim gwasanaeth – ymuno â St
Cross am 11yb
30 11yb Cymun Diolchgarwch
5yh Gosber Diolchgarwch
Hydref 7 Dim gwasanaeth – ymuno â St
Tegai am 11yb
14 9.30yb Cymun Bendigaid

Bydd gennym stodin ym Marchnad
Ogwen ar Hydref 13eg, a hefyd Te Bach
ddydd Mawrth 18fed am 2yp. Dewch atom
am baned a chacen.

Pen-blwydd arbennig
Dathlodd Wynne Roberts, Bryn Difyr,
Braich Talog, ben-blwydd arbennig iawn
yn 90 oed ar Awst 23. Teithiodd ei fab Paul
o Seland Newydd i ddathlu pen-blwydd ei
dad. Gobeithio i chi gael diwrnod wrth eich
bodd, Wynne.
Fe hoffai Wynne ddiolch o galon i bawb
am ei caredigrwydd iddo drwy anfon
cardiau, anrhegion a phob dymuniad da ar
achlysur ei ben blwydd. Diolch yn fawr.



Wynne efo Paul, y mab

I Wynne ar ei Ben-blwydd yn 90

Mae'r gŵr sy'n byw'n Bryn Difyr
Yn dathlu diwrnod mawr,
Mae'n ddeg a phedwar ugain,
Rhown floedd "Hwrê" yn awr.
Mae rhai yn ei adnabod
Fel Wynne o Dan y Bwlch,
Ond waeth pa 'run yw'ch dewis
Cyfarchwch yn ddi-fwlch.

Mae'n dipyn o hanesydd
Cyfarwydd â'i hen fro,
Mae'n cofio bron iawn bopeth
Ddigwyddodd iddo fo.
Y fo sy'n hel y casgliad
A weindio'r cloc yn chwim,
Y fo sy'n agor drysau'r
Toiledau a phob dim.

Gwasanaeth "Trefniant Lleol"
A gawn o dro i dro,
Mae'n dewis bod y cyntaf
I roi ei neges O;
Fe gaiff ymlacio wedyn
Yn hapus iawn ei wedd,
Yn gwrando ar y gweddi
Neu 'napio' yn ei sedd!

Dymunwn Ben-blwydd Hapus
Mae'n haeddu cael y clod,
Bendithier ef ag iechyd –
Y cant yn awr fo'r nod.
Diolchwn am ffyddlondeb,
Cymwynas lawer tro
I'r achos yma'n Shiloh
Braint cael ei nabad o.

Ffion Rowlinson



Wynne efo ffrindiau yn Shiloh.

Rhodd werthfawr er cof am Charlotte

Ar fore Iau, 6 Medi cyflwynwyd
offer angenrheidiol i'r Uned
Gofal Arbennig Babanod yn
Ysbyty Gwynedd er cof annwyl
am Charlotte Speddy a fu farw
yn 17 mlwydd oed ar 18 Awst
2015. Gwnaed y cyflwyniad ar ran
Ymddiriedolwyr Charlotte Speddy
gan ei mam, Angela, a'i brawd,
Tomos.

Bydd yr offer, sef Awyrydd
(Ventilator) ar gyfer Inciwbetor
Symudol, yn gaffaeliad mawr
i'r Uned, ac yn gymorth i arbed
bywydau babanod newydd-anedig.



Yn y llun gwelir (o'r chwith): Tomos Speddy; Dr. Gareth Jones (Ymddiriedolwr Cronfa Charlotte); Angela Speddy; Neville Hughes (Cadeirydd Ymddiriedolwyr Charlotte); Dr Manohar Joishy, Ymgynghorydd Pediatrig; Darrelle Smith, Rheolwr Uned Newydd-anedig; Jo Douglas, Rheolwr Gwasanaethau Pedriatig a Newydd-anedig; Gwenda Such, HCSW SCBU; Lynda Lewis, Arweinydd Tîm SCBU.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



2018
Medi
22 Cefnfaes – Eglwys St. Tegai
29 Cefnfaes – Plaid Cymru.

Hydref
06 Cefnfaes – Gorffwysfan.
13 Cefnfaes – Cronfa Tracy Smith
20 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol.
27 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

Tachwedd
03 Cefnfaes – Neuadd Talgai.
10 Cefnfaes – Clwb Camera
17 Cefnfaes – Gofalwyr Gwyned a Môn.
24 Caffi Coed y Brenin – NSPCC
24 Cefnfaes – Cronfa Cancr y Prostrat.

Rhagfyr
01 Cefnfaes – Plaid Lafur
08 Cefnfaes – Ysgol Sul Jerusalem

2019
Ebrill
27 Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Marchnad Ogwen

Hydref 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Tachwedd 10fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm

Tachwedd 21ain
Neuadd Ogwen, 5.00pm - 8.00pm

Bwydydd, Creffttau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

MEDI 25
HYDREF 9, 23 a 30
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI EGLWYS ST. TEGAI

SADWRN, 22 MEDI
10.00 – 12.00
MYNEDIAD: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI GORFFWYSFAN

SADWRN, 6 HYDREF
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI CRONFA GOFFA TRACEY SMITH

SADWRN, 13 HYDREF
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI EGLWYS ST. CEDOL

SADWRN, 20 HYDREF
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CYFARFOD BLYNYDDOL SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN

Nos Fawrth – Hydref 9
am 7.30 yh
Canolfan Cefnfaes, Bethesda
Croeso cynnes i bawb

Pedwaredd Ddarlith Goffa Archesgob John Williams:

Archesgob John Williams –
Noddwr Addysg

Sgwrs yn Saesneg gan y
Doctor Andrew Foster
(o Brifysgol Caint)

Nos Wener 19 Hydref 2018
am 7 o'r gloch

yn Eglwys Sant Tegai Llandegai

Mynediad yn £5 a lluniaeth
ysgafn i ddilyn

Clwb Camera Dyffryn Ogwen

Croeso Cynnes i Bawb

Lleoliad: Cefnfaes, Bethesda
7.15pm - 9.30pm

Rhaglen Medi - Hydref 2018

Medi 19	Arddangosfa 2018 'Cymdeithas Ffotograffig Gogledd Cymru'
Hydref 3	'171 o flynyddoedd o Photoshop' gyda Susan Clark, LRPS, CPAGB, AWPF. Prestatyn.
Hydref 17	'Tirluniau' gyda Tom Dodd, FRPS, DPAGB, FIPF. Blaenau Ffestiniog.

Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau:
www.dyffrynogwencamera.co.uk

Eglwys St. Cedol, Pentir yn cynnal Ffair Greffttau

29 Medi 2018
11yb – 4yh
Neuadd Bentref Rhiwlas

Creffttau Lleol a Lluniaeth
Croeso cynnes i bawb



Garddio

Yn yr ardd flodau

Daliwch ati i fwydo'r blodau gan gynnwys y rhai yn y basgedi. Gallwch blannu hyacinth ac amaryllis ar gyfer y Nadolig. Plannwch fylbiau saffrwm a chennin Pedr. Mae'r hydref yn amser da i blannu coed a llwyni pan fo ychydig o dywydd gwlyb ac ychydig o wres hefyd. Ewch o gwmpas i dorri'r blodau sydd wedi gwywo, fe gewch gnwd o flodau newydd yn eu lle.

Yn yr ardd lysiau

Os oes gormod o gnwd, dyma'r amser i'w cadw, eu piclo, gwneud jamiau, eu rhewi a'u storio. Rhowch gynnig ar ryseitiau newydd. Gallwch dorri blaendyfiant y tomatos rŵan. Os daw 'llaeth' allan o'r ffa melyn, mae'n barod i'w fwyta. Os oes ôl malltod[blight] ar y tatws, torrwch y dail ryw 3 wythnos cyn eu codi. Gadewch y tatws i sychu ar wyneb y pridd am ychydig oriau. Storiwch nhw - ond dim ond y tatws iach - mewn sachau wedi iddyn nhw sychu'n dda.

Daliwch i ddyfrio ffa Ffrengig a ffa dringo. Tynnwch nhw'n aml rhag iddyn nhw fynd i had.

Peidiwch â chodi pys a ffa o'r ddaear wedi iddyn nhw orffen tyfu. Mae eu gwreiddiau yn rhoi nitrogen i'r pridd.

Rhowch ychydig o fintys a phersli mewn potyn ar gyfer y gegin dros y gaeaf.

Hwyrach y bydd angen rhwyd i gadw'r adar oddi ar y bresych.

Cyffredinol

Tacluswch y gwely mefus rhag elfennau niweidiol. Taflwch unrhyw ffrwythau sydd wedi pydru. Dylech ddyfrio'r tŷ gwydr yn y bore; mae botrytis yn hoffi nosweithiau tamp ac oer. Caewch y drws yn y pnawniau. Gellir hau hadau lawnt ym mis Medi. Gallwch hefyd fwydo lawnt sydd wedi'i hen sefydlu.

CANOLFAN CEFNFAES

BORE COFFI
PLAID CYMRU

SADWRN, 29 MEDI
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref,
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
Eirlys Edwards, Sŵn y Coed,
23 Pentref Llandygái, Bangor LL57
4HU ☎ 01248 351633

Llongyfarchiadau

Bu Esther Gao o'r Pentref yn llwyddiannus iawn yn ei Arholiad TGAU. Cafodd 8 A*, ac C yn y Gymraeg. Symudodd y teulu yma o Shanghai dair blynedd yn ôl.

Pen-blwydd

Dathlodd Dr Pam Jones ac Eirlys Edwards o'r pentref eu penblwyddi diwedd Awst.

Gwyliau

Braf iawn oedd cael croesawu Dewi Jones a'r teulu i'w cartref 'Dyma Fo'. Maent yn byw a gweithio yn Shanghai ers 4 blynedd.

Newyddion

Os oes gennych chi neu eich cymdogion newyddion am yr ardal, a fyddech mor garedig â rhoi gwybod i Eirlys Edwards neu Iona Jones.

Eglwys Sant Tegai, Llandygái Garddwest Penrhyn

Ar bnawn Sadwrn Gŵyl y Banc Awst 25ain cynhaliwyd Garddwest St Tegai ym Mharec Penrhyn drwy ganiatâd caredig Mr a Mrs Richard Douglas Pennant. Cawsom wled o adloniant gan y Chicago Teddy Bears, band jazz traddodiadol, yn y babel tra'n mwynhau bwyd blasus, a thywynnodd yr haul yn y diwedd. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr achlysur, boed ar stondinnau, yn gwerthu raffl neu yn cario'r nwyddau. Codwyd dros £800 at Gronfa Atgyweirio St Tegai.

Llongyfarchiadau

Pob dymuniad da i Angela a Richard Leverett ar eu priodas ar Awst 11eg yn Eglwys St Tegai. Cynhaliwyd y wled briedas yn ardd yr "Anchorage", drws nesaf i'r eglwys.

Cydymdeimlad

Estynnwn bob cydymdeimlad i Sarah, Robert a'u teuluoedd yn eu colled o fam, mam yng nghyfraith a nain annwyl yn Betty Marshall. Roedd Betty yn un o hoelion wyth yr eglwys drwy wasanaethu'r cymun, offrymu gweddïau, cynrychioli'r eglwys yng nghyfarfodydd yr esgobaeth ac fel aelod o'r cyngor plwyf eglwysig. Roedd pawb bob amser yn gwerthfawrogi ei llais unigryw a'i darlleniadau clir a synhwyrol o'r Ysgrythur. Bydd hiraeth ar ei hôl.

Ffarwél

Cafwyd gwasanaeth arbennig ar nos Sul Awst 26ain pan ffarweliodd llu o ffrindiau â'r Parchedig Ganon David Fisher o'r Gadeirlan. Cymerodd Gôr y Gadeirlan ran flaenllaw yn yr addoliad gyda Martin Brown yn cyfeilio. Roedd clerigion a swyddogion o'r Deoniaeth yn bresennol yn y gwasanaeth. Dymunwn bob bendith ar ei weinidogaeth yn Carshalton yn Swydd Surrey.

Bedydd

Bedyddiwyd Fox Davies, un o wyrion Dr a Mrs Robin Davies yn ystod y gwasanaeth ddydd Sul Medi 16eg. Braf oedd gweld y teulu draw o America ar gyfer yr achlysur a dymunwn bob bendith ar y bychan fel Cristion newydd.

Bore Coffi

Bydd cyfle i ddod draw i Ganolfan Cefnfaes am baned a sgwrs ddydd Sadwrn Medi 22ain. Edrychwn ymlaen i'ch gweld!

Codi arian

Cynhelir stondin anrhegion a llyfrau ail-law yn Ysbyty Gwynedd ddydd Llun Hydref 15fed. Mae'r staff, ymwelwyr a chleifion bob amser yn garedig tuag at yr achos drwy brynu'r nwyddau. Dewch draw i'r ysbyty i'n gweld!

Rhagrybudd o Ddarlith Flynyddol Archesgob John Williams

Pedwaredd Ddarlith Goffa Archesgob John Williams:
Archesgob John Williams - Noddwr Addysg
Sgwrs yn Saesneg gan y Doctor Andrew Foster (o Brifysgol Caint)
Nos Wener 19 Hydref 2018 am 7 o'r gloch
yn Eglwys Sant Tegai, Llandygái
Mynediad yn £5 a lluniaeth ysgafn i ddilyn

Gwasanaethau Sant Tegai dros gyfnod Diolchgarwch

Medi 23ain - Dim gwasanaeth.
Diolchgarwch 11.00 y.b. yn St Cross Talybont
Medi 30ain - Dim gwasanaeth.
Diolchgarwch am 11.00 y.b. St Mair Tregarth
Diolchgarwch (Cymraeg) am 5.00 y pnawn yn Eglwys St Mair Tregarth
Hydref 7fed - Diolchgarwch Sant Tegai am 11.00 y.b.
Hydref 14eg - Diolchgarwch eglwysi Bro Ogwen am 5.00 Lleoliad i'w gadarnhau

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Cofio'r Carnifál (1)

Mae'n siŵr gen i fod llaweroedd o drigolion Bethesda a'r cyffiniau yn cofio sawl diwrnod carnifál yn Nyffryn Ogwen. Am wythnosau cyn y diwrnod 'mawr', mi fyddai pawb yn gobeithio am ddyddiau heulog, braf - ond y rheini weithiau'n ddiwrnodau glawog, diflas. Roedd y paratoi ar gyfer yr un diwrnod hwnnw yn rhyfeddol - ugeiniau o blant ac oedolion yn chwysu chwartaia' wrth drefnu ar gyfer pob math o wahanol weithgareddau. Dw i am fwrw golwg yn ôl at ambell un o'r carnifalau a gynhaliwyd yn yr ardal 'ers talwm'.

Fel y gŵyr llawer ohonoch, dw i'n casglu deunyddiau o bob math yn ymwneud â Dyffryn Ogwen. Yn eu plith, mae gen i gasgliad bychan - ond cwbl anghyflawn - o raglenni carnifalau. Ar glawr y rhaglen gyntaf o ran dyddiad sydd gen i, y pennawd ydi 'Bethesda Grand Carnival - June 25th, 1929' ac yna 'Official Programme of the Crowning Ceremony and Variety Entertainment by 70 Children in the Public Hall at 2.30 p.m.' a phris y rhaglen yn 'Threepence'. Fe'i cyhoeddwyd gan H. Penrhyn Jones [Lorne House], Bethesda. Y cyfan yn yr iaith fain, heb air o iaith y nefoedd yn agos at y rhaglen, fel pe na bai neb o drigolion yr ardal yn siarad gair o Gymraeg!

Ar yr ail ddalen, â'r pennawd 'Court of H. M. Queen Gweneth' ac o dano 'Her Majesty the Queen - Miss Gweneth Williams. O dan hynny, cawn nifer o isbenawdau a rhesi o enwau o danyn nhw:

- Ladies-in-Waiting:** Eileen Mc'Carter, Megan Owen, Morfudd Evans, Menai Williams, Mair Davies, Dilys Jones, Letty Hughes, Emily Williams.
- Maids of Honour:** Ronny Griffiths, Maisie Jones, Mair Roberts, Mary Smith.
- Pages:** Tom Whitehead, Griffith Hughes.
- Lord Chamberlain:** Ellis Wyn Jones.
- Crown Bearer:** Glyn Penrhyn Jones
- Marshall:** W. Wynne, Esq.
- Morris Dancers (Before the Procession):** Rosy Jones, Mair Foster, Lilian Davies, Gracie Jones, Glenys Edwards, Eldra Roberts, Mair Hughes, Gracie Jones.
- National Dancers:** Mabel Lewis, Rita Jones, Kathleen Hannah, Edna Owen, Ithel Wyn Jones, Henry Jones, Cecil Morgan, Ella Rowlands.
- Morris Dancers:** Elsie Davies, Nora Pierce, Eirwen Jones, Betty Hughes,

- Kathleen A. Pritchard, Mair Williams, Mair Jones, Augusta Griffiths, Eluned Davies, Beryl Williams, Peggy Hills, Hazel Rowlands.
- Maypole Dancers:** Kathleen M. Jacques, Nora E. Jones, Margaret M. Jones, Margaret Griffiths, Nesta Lloyd Pierce, Mair Roberts, Muriel Williams, Elisabeth K. Hughes, Gwilym Jones, Islwyn Jones, Heulyn Griffiths, John Owen Jones, Glyn Ellis Jones, Dick Jones, Mair Jones, Cyril Williams.
- Country Dancers:** Peggy Jones, Nora Davies, Nesta Parry, Betty Williams, Rita Robinson, Megan Williams, Emily Davies, Myfi Williams.

(All Dances arranged and taught by Miss L. E. Williams, Gerlan N. P. School).
Accompanist: Miss Morfudd Williams, Cefnfaes School.

- Ar y drydedd ddalen, ceir y'Programme':
- Overture.**
 - Crowning of the Rose Queen** by Mrs O. C. Roberts, Liverpool.
 - Song:** 'Hail to the Queen'.
 - Address by the Queen.**
 - Dance:** 'Welcome Spring' ... Country Dancers.
 - Dance:** (a) 'Bean Setting' ... Morris Dancers.
(b) 'Country Gardens.
 - Maypole Song and Dance:** Maypole Dancers.
 - National Dances**
 - Harp Selection**
 - Dance ... 'Daphne' ...** Maids of Honour.
 - Dance:** 'Early Victorian Minuet' ... Ladies-in-Waiting.
 - 'The Return of Spring' ...** Queen.
 - Presentations to the Rose Queen.**

A dyna i chi ychydig o flas ar ran fach o fywyd yn y Dyffryn 89 o flynyddoedd yn ôl. Fe'i cefais yn anodd peidio â dechrau manylu ar rai o'r enwau sy'n gyfarwydd i mi ond gadawaf hynny i unrhyw un o ddarllenwyr *Llais Ogwan* - croeso i chi anfon nodyn neu ebost ataf (Bryn Ogwen, Bethel, Caernarfon, LL55 3AA; johnelwyn@btinternet.com) i sôn yn fyr am berthynas, ffrind, neu unrhyw aelod arall o griw carnifál 1929.

Llythyrau

25 Ffordd Ffrydlas,
Bethesda.

Annwyl Olygydd,
Hoffwn ymddiheuro i Eglwys Jerusalem am fethu cynnwys eu cyfraniad o £20.30 tuag at Wythnos Cymorth Cristnogol yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn y *Llais* fis Gorffennaf. Felly £4076.17 oedd y cyfanswm a godwyd gan Fethesda a'r cylch eleni.
Unwaith eto mawr ddiolch i bawb am eu cyfraniad.
Yn gywir,
Lester Bath

Annwyl Olygydd,
Cynhyrchiad nesaf Bara Caws fydd '**Dwyn i Gof**', y ddrama olaf i Meic Povey ei hysgrifennu ar gyfer Theatr Bara Caws. Mi fyddwn yn teithio o'r gfed o Hydref (agor yn y Galeri, Caernarfon) a diweddu yn yr Atriwm yng Nghaerdydd nos Sadwrn 27ain o Hydref. Noder - defnyddir iaith gref yn y ddrama yma. Fel y gwelwch, mae'r cast yn cynnwys actorion o fri - Gwenno Elis-Hodgkins, Sara Gregory, Rhodri Meilir a Llion Williams. Y cyfarwyddwr yw Betsan Llwyd. Sylwer fod yna ganllaw oed o 16+ gyda'r ddrama yma.
Dyma'r perfformiadau agosaf at Fethesda: Galeri, Caernarfon, 9 a 10 Hydref am 7.30 (01286 685222); Pontio, Bangor, 16 Hydref am 7.30 (01248 382828).
Gyda mawr ddiolch i chi am eich cefnogaeth.

Cofion gorau,
Linda Brown, Bara Caws

84 Ffordd Carneddi,
Bethesda.

Annwyl Olygydd,
Codi dros £1,000 at Eisteddfod Genedlaethol 2019
Drwy golofnau *Llais Ogwan* hoffwn ddiolch i'r llu golffwyr o Wynedd a Môn, ac yn arbennig o Ddyffryn Ogwen, a ddaeth i gefnogi'r gystadleuaeth golff a gynhaliwyd yng Nghlwb Golff Maesdu ar 18 Gorffennaf, er budd yr Eisteddfod uchod a gynhelir yn Llanrwst yn 2019. Drwy ymdrechion Pwyllgor Apêl Deganwy ac aelodau o'r clwb llwyddwyd i godi dros fil o bunnau tuag at yr achos. Cafwyd diwrnod arbennig o braf ac fe gynhaliwyd y gystadleuaeth mewn awyrgylch hwyliog dros ben.
Llawer o ddiolch i chi am eich cefnogaeth.

Menna Roberts,
(Captan Adran y Merched)

Lansio Apêl Newydd i Godi £10k y Flwyddyn a Gwireddu Gweledigaeth Merêd

Dyn y ‘pethe’, dyn y werin, ac yn anad dim, dyn y Gymraeg oedd Dr Meredydd Evans – neu Merêd i ni ei gyd-Gymry. Bu’n ymgyrchu’n ddyfal gydol ei oes i sicrhau ffyniant a pharhad y Gymraeg, a nawr, wrth iddynt baratoi i nodi canmlwyddiant ei eni yn 2019, mae ei gyfeillion yn Ymddiriedolaeth William Salesbury wedi cyhoeddi apêl genedlaethol newydd sbon i wireddu ei weledigaeth.

Bwriad yr Ymddiriedolaeth, ers i Merêd ei sefydlu yn 2012, yw ariannu ysgoloriaethau i gefnogi pobl ifanc i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda’r nod o gefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd yn cydweithio gyda phrifysgolion Cymru i ehangu ystod y cyrsiau sydd ar gael i’w hastudio trwy

gyfrwng y Gymraeg. Mae’r criw nawr am weld gweledigaeth Merêd yn fyw eto, ac wedi datgan bod angen i’r Gronfa gasglu o leiaf £10,000 y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i sicrhau ysgoloriaethau’r dyfodol.

Ers sefydlu’r gronfa, mae chwech o Gymry ifanc wedi derbyn cymorth ariannol gan y Gronfa a hynny ar ffurf ysgoloriaethau gwerth £5,000 yr un, dros dair blynedd. Eleni, Heledd Lois Ainsworth, disgybl yn Ysgol Bro Teifi, ac Elen Wyn Jones, disgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen, oedd yr enillwyr.

Mae Heledd ar fin astudio’r Gyfraith a’r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yn edrych ymlaen i ddefnyddio

canran o’i hysgoloriaeth i “ymchwilio’r defnydd o ieithoedd lleiafrifol ym meysydd y gyfraith”. Bwriad Elen yw mynd i Brifysgol Bangor i astudio’r Gymraeg a Cherddoriaeth ym mis Medi. Dywedodd mai “braint” oedd derbyn Ysgoloriaeth William Salesbury ac y byddai “o fudd mawr” iddi.

Wrth lansio’r apêl ar faes yr Eisteddfod yng Nghaerdydd, dywedodd Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, Dr Gwenllïan Lansdown Davies: “Nid oedd llaesu dwylo yn perthyn i Merêd. Dyma ein cyfle ni nawr i gerdded yn ôl ei droed ac ymuno yn yr ymdrech i gefnogi addysg gyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg – o’r cylch meithrin i’r brifysgol.”

Os hoffech ymuno yn yr ymdrech, gallwch gyfrannu heddiw mewn sawl ffordd:

- rhoi swm o arian trwy siec, cerdyn, daliad ar-lein neu orchymyn banc
- gorchymyn ad-daliad o’ch treth lle bo’n bosib (Rhodd Gymorth)
- trefnu gweithgareddau i godi arian
- gadael rhodd yn eich ewyllys i’r Gronfa, fel y gwnaeth Merêd.

Am fanylion pellach:
Ebost:ysgrifennydd@cronfasalesbury.org
Gwefan:www.cronfasalesbury.org
Cyfeiriad: d/o y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Llwyfan, Caerfyrddin, SA31 3EP

Tarian Goffa Dafydd Rose

Mewn Bore Coffi er budd Clwb Pêl droed Mynydd Llandygái, a drefnwyd gan ferched Caffi Coed y Brenin ar Sadwrn, 21 Gorffennaf, cyflwynwyd tarian newydd sbon er cof am Dafydd (“Rose”) Pritchard.

Roedd Dafydd yn gefnogwr brwd ac yn weithiwr dygn dros y clwb, ac fe fydd y darian yn fodd i ofalu na fydd ei enw na’i gyfraniad i’r clwb yn mynd yn angof.

Rhoddir y darian yn flynyddol am wasanaeth arbennig i’r Clwb Pêl-droed, a’r enillwyr am y tymor 2017/18 oedd Julie Owen am ei gwaith fel trysorydd y Clwb, ac Eryl Morris, y tirmon, am ei ofal arbennig o’r cae pêl-droed.



Yn y llun (o’r chwith): Heulwen Roberts (cyfnither Dafydd) yn cyflwyno’r darian i Eryl a Julie, gyda Huw Davies, rheolwr y clwb, ar y dde.

Y Dyddiadur toriadau (4)

Detholiad gan Derfel Roberts

ADRODDIADAU/YSGRIFAU
(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel ‘Y Cloriannydd’ wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll.)

Dyma’r dyddiadur, ac wrth ei ochr dangosir pren mesur sy’n rhoi ei faint. Mae’n rhyfeddol nodi swm y wybodaeth y llwyddodd John Owen, Garnedd Wen i’w gynnwys trwy gyfrwng y toriadau o bapurau newyddion.

Ym Mhennod 3 dyfynnwyd allan o adroddiad am ddadl wleidyddol y dymunai cangen Llanfairpwll o’r Blaid Genedlaethol ei chael gyda Changen Ieuencid y Rhyddfrydwyr. Roedd ateb Mr T.E. Jones o’r Blaid Ryddfrydol i Beti Owen o’r Blaid Genedlaethol yn dangos bod cryn ddrwgdeimlad yn bodoli rhwng y ddwy blaid. Yn dilyn y llythyr ‘piwis’ gan T.E. Jones anfonodd gŵr o’r enw Mr O. Hughes, Coedlys, lythyr o ateb yr un mor biwis i’r papur fel a ganlyn:

‘Caniatewch imi anfon gair o ateb i’r hyn a ysgrifennodd Mr T. E. Jones ynglŷn â dadl rhwng y Blaid Genedlaethol a’r Rhyddfrydwyr Ieuanc. Fel y dywedodd Mr Jones anfonwyd yr her allan gan gangen y Blaid Genedlaethol, Tachwedd 2 ond ni chafwyd ateb o gwbl ac eithrio’r llythyr a ganlyn mewn iaith estron’:-

**‘Dear Miss Owen,
Thanks for your note by hand. I very much regret that I am unable to give you an answer as my committee has not met but will bring it up at the next. It may be this week but I am going to see the chairman this afternoon’.
With kindest regards , yours sincerely,
T.E. Jones.**



Â llythyr O. Huws yn ei flaen i ddweud;

‘Clywyd llawer o sisial o dro i dro fod y Rhyddfrydwyr yn bwriadu dyfod â Miss Megan Lloyd George, Mr Seabourne Davies ac eraill i wrthwynebu’r Athro Daniel ond gan na chafwyd ateb swyddogol mewn llythyr oddi wrth y gangen Ryddfrydol ni chymerwyd sylw o hyn o gwbl gan y Blaid Genedlaethol. Ail anfonir yr her atynt am ddadl gyhoeddus gan obeithio cael ateb moesgar Cymraeg oddi wrthynt y tro yma’.

Ydwyf yn gywir,
O. Huws (dirprwy ysg.)

Diwrnod Shwmae Su'mae

Sut byddwch chi’n dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae eleni? 15.10.17
Eleni bydd **Diwrnod Shwmae Su'mae** yn digwydd am y chweched tro ar Hydref 15fed. Sut byddwch chi’n dathlu ein 5ed pen blwydd? Cofiwch achub ar y cyfle i ddathlu’r iaith Gymraeg, yn eich cymuned, eich siop leol, yr ysgol, coleg, prifysgol, gweithle, ysbyty, lyfrgell, caffi, bar neu dafarn. Dechreuodd Diwrnod Shwmae Su'mae 6 mlynedd yn ôl gyda dros 100 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal i ddathlu’r Gymraeg, gafwyd eu hysbrydoli gan ymgyrchoedd tebyg i hybu ieithoedd brodorol Gwlad y Basg a Llydaw. Heddiw mae’r achlysur wedi ei gofleidio gan bobl ymhob rhan o Gymru, yn ddysgwyr, y di-Gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Erbyn hyn mae cannoedd o ddigwyddiadau ac achlysuron yn cael eu cynnal o Fôn i



Fynwy ar Hydref 15fed neu yn ystod yr wythnos honno. Mae nifer o sefydliadau, busnesau, grwpiau cymdeithasol, ysgolion, colegau a phrifysgolion yn cynnal digwyddiadau o gwmpas y Diwrnod er mwyn hyrwyddo’r iaith, annog a rhoi hyder i eraill i’w defnyddio ac fel ffordd o bontio ein perthynas a’r iaith unigryw hon a’i ddefnydd

naturiol ar draws Cymru.
Cyn pen dim bydd un Shwmae neu Su'mae yn troi yn gannoedd neu’n filoedd trwy gydol y flwyddyn! Rhowch gynnig arni, i drefnu, cyd-drefnu a dathlu’r diwrnod cenedlaethol hwn!
Am fwy o wybodaeth:
<http://www.shwmae.cymru/>

Cefnogaeth ariannol ar gael drwy Cronfa Cist Gymunedol Chwaraeon Gwynedd

Mae Cronfa Cist Gymunedol Gwynedd wedi dyrannu cyfanswm o £12,203 i naw clwb chwaraeon yn y sir yn ddiweddar.

Mae grantiau Cist Gymunedol Gwynedd yn rhoi cymorth i glybiau a sefydliadau amrywiol sydd yn ymwneud a chwaraeon a gweithgaredd corfforol ledled y sir. Mae hyd at £1,500 o grant ar gael a £76,500 i ddyrannu i brosiectau yng Ngwynedd eleni.

Bydd yr arian grant mae'r Gist Gymunedol Gwynedd yn dyrannu, yn helpu i hybu clybiau a sefydliadau chwaraeon yn y sir ac i ddarparu gwell cyfleoedd chwaraeon i drigolion Gwynedd.

Does dim rhaid bod yn glwb chwaraeon i ymgeisio. Gall Neuaddau Cymunedol neu Bwyllgorau Lleol cyflwyno cais os ydynt am ddatblygu gweithgareddau corfforol yn eu cymuned.

Dywedodd y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant ar Gyngor Gwynedd: "Pwrpas Cist Gymunedol Gwynedd ydy i gefnogi a hyrwyddo amrywiaeth o chwaraeon ym mhob rhan o'r sir. Fel Cyngor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd a'r angen am glybiau a sefydliadau chwaraeon yn ein cymunedau, ac mae'n bwysig ein bod yn rhoi gymaint o gymorth a gallwn iddyn nhw i lwyddo. Mae'n hynod galonogol fod grantiau'r Gist Gymunedol yn parhau i fod o gymorth i nifer helaeth o glybiau a sefydliadau chwaraeon yng Ngwynedd. "Byddwn yn annog unrhyw glwb neu sefydliad chwaraeon yng Ngwynedd sy'n credu eu bod yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol gan Gist Gymunedol Gwynedd i gyflwyno cais cyn gynted â phosibl. Gall grant o'r fath hon sicrhau datblygiad yn y cyfnod ariannol heriol hwn sydd ohoni." Yng nghyfarfodydd diweddaraf Cist Gymunedol Gwynedd, rhannwyd grantiau i nifer o glybiau gan gynnwys:

- Clwb Chwaraeon Cymunedol Dinas Bangor: grant ar gyfer addysg hyfforddiant i Arweinydd Pêl-droed/ Cymorth Cyntaf/Cwrs FAW er mwyn datblygu'r clwb ymhellach.
- Clwb Marchogaeth Sir Gaernarfon: grant er mwyn galluogi'r clwb i brynu offer dyfais amseriad, sydd yn ddefnyddiol tra bod hyfforddiant a chystadleuaeth ei marchogwyr yn digwydd.
- Clwb Pêl-rwyd Dinas Mawddwy: grant wedi cymeradwyo ar gyfer talu ffioedd a chyrsiau addas tuag at

- gymwysterau addysg hyfforddwyr ac offer i brynu peli pêl-rwyd a dillad.
- Clwb Bowlïo Mat Byr Trefor: grant ar gyfer prynu offer bowlïo a storfa.
- Clwb Pêl-droed Mountain Rangers: atgyfodi clwb pêl-droed oedd wedi cau gan greu timau pêl-droed ieuenctid o wahanol oedrannau.
- Clwb Ardal Caernarfon Undeb Rygbi a Phêl-droed: grant ar gyfer addysg a chyrsiau hyfforddwyr a gwirfoddolwyr i wella cymwysterau hyfforddwyr y clwb yn ogystal â llogi neuadd i hyfforddi.
- Môr-ladron: datblygu cymwysterau hyfforddwyr y clwb o Gaernarfon gan anfon 2 berson ar gwrs.
- Clwb Pêl-rwyd Tywyn: cefnogaeth ariannol i ddatblygu tîm pêl-rwyd newydd.
- Clwb Pêl-droed Talysarn Celts: cymeradwyo'r cais ar gyfer hyfforddiant pellach, prynu offer, ddillad a llogi cyfleusterau hyfforddi.

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau fydd 6 Medi, gyda'r dyddiad cau nesaf wedi hynny ar 5 Tachwedd. Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno cyn hanner dydd. Gellir llenwi cais ar lein trwy fynd a'r safle we Chwaraeon Cymru www.chwaraeon.cymru (Cyllid-Grantiau-Cist Gymunedol) a chlicio ar 'Ymgeisio ar-lein. Am unrhyw wybodaeth arall neu gyngor, cysylltwch â thîm Cist Gwynedd y Cyngor drwy e-bostio LAGO@gwynedd.llyw.cymru neu ffoniwch 01286 679153.

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin

Llandegfan

Ynys Môn

LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

EGLWYS UNEDIG

BETHESDA

LLENWY'R CWPAN

Dewch am sgws a phaned.

Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Ysgol Tregarth

Croeso

Mae hi'n bleser cael croesawu'r disgyblion Meithrin newydd i Ysgol Tregarth. Mae pawb wedi setlo'n wych ac yn mwynhau dod i'r ysgol i ddysgu a chwarae gyda'u ffrindiau. Croeso hefyd i'r disgyblion sydd yn y Dosbarth Derbyn ac yn cael dod i'r ysgol trwy'r dydd!

Rydym hefyd yn croesawu Mr Carwyn Roberts sydd yn ymuno â'r staff dysgu yn llawn amser. Bydd Mr Carwyn Roberts yn dysgu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn nosbarth Ogwen eleni. Croeso cynnes, a gobeithio y bydd Mr Roberts yn hapus yma yn Ysgol Tregarth.

Miss Barnes

Rhyfedd iawn oedd cychwyn y flwyddyn ysgol ddydd Llun heb gwmni hwyliog Miss Barnes. Mae Miss Barnes wedi derbyn newyddion trist iawn am ei hiechyd yn ystod gwyliau'r haf, ac oherwydd hyn wedi gorffen yn ei swydd fel cymhorthydd yn Ysgol Tregarth. Mae gan holl blant, staff a rhieni feddwl y byd o Miss Barnes. Mawr yw ein diolch i Miss Barnes am ei holl waith, ymroddiad, cyfeillgarwch a'i gofal annwyl o'r holl blant sydd wedi mynychu'r ysgol dros yr ugain mlynedd diwethaf.

BYSUS

D. J. Owens

RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER

EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -

TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATIL.

Bysus Gwydd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY

SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda

Gwynedd LL57 3ST

Ffôn: 01248 602480

07967 541870

Ysgol Dyffryn Ogwen



Rhai o'r disgyblion a lwyddodd yn eu arholiadau TGAU



Blwyddyn 7

Cychwynnodd 93 disgybl ym mlwyddyn 7 eleni, sy'n dod a chyfanswm y disgyblion yn yr ysgol dros 470. Rhagwelir y bydd yr ysgol yn parhau i dyfu dros y blynnyddoedd nesaf. Mae'r 93 disgybl yn dod o 9 ysgol gynradd – gyda'r nifer mwyaf yn amlwg o ysgolion Bodfeurig, Llanllechid, Penybryn, Rhiwlas a Thregarth ac mae'n dda gweld ambell ddisgybl o Ysgol Llandygai yn dod atom ni.

Canlyniadau Arholiadau

Mae'r canlyniadau TGAU eleni yn glod i ymroddiad y disgyblion, i gefnogaeth eu rhieni, ac i waith caled yr athrawon wrth baratoi'r disgyblion. Rhaid rhoi clod i ambell ddisgybl gafodd lond trol o sêr gan gynnwys Ella Baker gyda 12 gradd A* ac 1 Rhagoriaeth*, Beca Nia efo 10 gradd A*, 3A ac 1 Rhagoriaeth*, Thalia Lichtenstein efo 10A* a 4 gradd A, Macsen Wyn efo 5A*, 3A a 5B a Ryan Pople efo 3A*, 7A, 3B a 2 radd Rhagoriaeth*.

Gyferbyn gwelwn lun o enethod hapus iawn ar ddiwrnod y canlyniadau lefel A – Gwenllian Owen, sy'n mynd i astudio'r Gyfraith ac Astudiaethau Ewropeaidd yn Leeds, Elen Wyn yn astudio Cerdd a'r Gymraeg ym Mangor, Martha Evans sy'n mynd i astudio Optometreg yng Ngaerdydd, Ffion Elin Roberts sy'n mynd i astudio'r Gyfraith yn Nottingham ac Elin Rowlands sy'n mynd i astudio Bywydeg yn Llundain; y dair wedi cael tomen o raddau A*/A!

Llongyfarchiadau hefyd i Owain Morgan am lwyddo i gael canlyniadau eithriadol gyda 4 gradd A* mewn Mathemateg, Mathemateg Bellach, Ffiseg a Chemeg.

Athrawon Newydd

Mae'r ysgol yn croesawu nifer o athrawon newydd ar gychwyn y flwyddyn ysgol – Mr Andrew Thomas yn Bennaeth Cerdd, Ms Stephanie Garrod yn athrawes Mathemateg ac Miss Lora Owen yn athrawes y Gymraeg.

STEPHEN JONES

TREFNWR

ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA

GWASANAETH PERSONOL

PEDAIR AWR AR HUGAIN

CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976

Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Siân Gwenllian

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR

(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE

(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Pentir

Cynrig a Carys Hughes, Rallt Uchaf,
Pentir, LL57 4YB. ☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

Ras Hwyl Pentir

Cynhaliwyd ail Ras Hwyl Pentir ar y 10fed Gorffennaf gyda 97 o redwyr yn cymryd rhan gan gynnwys nifer o deuluoedd. Braff oedd gweld llawer o blant yn rhedeg gyda Harry Robbins ond yn 5 oed, da iawn fo!

Cychwynnodd y ras 5km o Sgwâr Pentir gan fynd trwy gaeau, coedwig a godrau Moelyci. Cedol Dafydd o Bentir enillodd ras y dynion am yr ail dro yn olynol mewn amser o 17 munud gan guro ei amser y llynedd o 35 eiliad. Hannah Jones o Fynydd Llandygái enillodd ras y merched gan guro record 2017 yn y broses. Roedd Tafarn y Faenol yn orlawn ar gyfer cyflwyno'r gwobrau, a chafwyd noson gymdeithasol wych iawn.



Cedol Dafydd

Cyflwynwyd 15 o wobrau i gyd, a diolch i Dafarn y Faenol, Pedro Baboonwinckle a'r Pafiliwn Criced Ffordd Llandygái am eu haelioni; y Pafiliwn Criced wnaeth ddarparu'r dŵr ar gyfer y rhedwyr hefyd. Diolch i bawb a gymerodd rhan ac i'r holl wirfoddolwyr a sierhaodd fod y noson yn llwyddiant. Bydd Parchu Pentir yn rhannau'r elw o'r noson ac yn cael ei ddosbarthu rhwng Cronfa Diffibriliwr Rhiwlas, cae chwarae Ysgol Rhiwlas a chostau cynnal Diffibriliwr Sgwâr Pentir.

Cwrs Cymorth Cyntaf

Yn dilyn gwaith Parchu Pentir yn gosod Diffibriliwr yn Sgwâr Pentir yn gynharach yn y flwyddyn, cynhelir Cwrs Cymorth Cyntaf ym Mhafiliwn Criced, Ffordd Llandygái ar nos Fawrth, 25ain Medi, 2018 rhwng 7 a 9 o'r gloch yr hwyr. Croeso i bawb.

Gwellhad

Anfonwn ein cofion at Bet Thomas, Sgwâr Pentir yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Eglwys St Cedol

Clwb 100 Mis Gorffennaf 2018

1af	Rhif 14	Sharon V Williams, Pentir
2ail	Rhif 60	Laura Hosker, Deiniolen
3ydd	Rhif 30	Mair Roberts, Rhiwlas

Clwb 100 Mis Awst 2018

1af	Rhif 15	Terry Jones, Caernarfon
2ail	Rhif 54	Alison Ellis, Tregarth
3ydd	Rhif 43	Ann Illsley, Pentir

Dymuniadau Gorau

Dymuniadau gorau i Martyn Lewis, un o ddarlennwyr Lleyg Ardal Weinidogaethol Bro Ogwen, sydd wedi gadael y Fro i Fro Enlli am gyfnod i gael ei addysgu ymhellach wrth iddo ymestyn ei yrfa weinidogaethol. Dymuniadau gorau i Martyn a Scarlett oddi wrthym i gyd yn Eglwys St Cedol.

Bedydd

Brynhawn Sul 26 Awst bedyddiwyd Ann, merch fach Nia a Bryn o Lanfairfechan a chwaer fach Ela, Lea a Jac. Roedd y bedydd dan ofalaeth y Parch. Christina McCrea.

Cofion

Anfonwn ein cofion cynnes at Eira, Mai, Bill a Vic. Nid ydynt yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Anfonwn ein dymuniadau gorau i chwi.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r ddiweddar Mary Vaughan Williams, Glasinfryn. Bydd ymadawiad Mary yn golled fawr i'r gymuned a ni fel Eglwys oherwydd yr oedd mor barod ei chymwynas a'i chefnogaeth. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Ffair Grefftau

Bydd Eglwys St Cedol yn cynnal Ffair Grefftau yn Neuadd Bentref Rhiwlas ddydd Sadwrn 29 Medi o 11yb i 4yh. Mae stondinau, yn cynnwys canhwylau, cardiau, nwyddau wedi'u gwau, bagiau, dillad plant, planhigion, body shop ac amryw eraill, gyda lluniaeth ysgafn. Croeso cynnes i bawb.

Bore Coffi

Fore Sadwrn, 20 Hydref bydd Eglwys St Cedol yn cynnal Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda 10 - 12yb. Croeso cynnes i bawb.

Gweithgareddau'r Haf

Brynhawn Sadwrn, 28 Gorffennaf cynhaliwyd Te Mefus yn Neuadd Bentref Rhiwlas. Roedd

amrywiol frechdanau, a danteithion mefus melys o bob math. Roedd yn brynhawn hwyliog a llwyddiannus. Diolch i bawb am ei cefnogaeth.

Yna nos Wener, 25 Awst cafwyd noson ddifyr iawn o Ddatganiadau cerddorol a Llenyddiaeth yng nghwmni Sharon Williams ar yr organ a Sioned Roberts yn canu'r clarinét. Cafwyd darlleniadau o farddoniaeth, myfyrdodau a darlleniad o'r Beibl. Canodd Helen a Eirwen ddau unawd ac ymunodd y gynulleidfa i ganu caneuon poblogaidd i gyfeiliant Calipso sef grŵp oedd yn canu'r ukelele. Diolch i'r perfformwyr am noson wych, a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ddydd Sadwrn, 1 Medi roedd sêl planhigion yn yr Eglwys. Roedd Gaynor wedi bod yn brysur yn tyfu a pharatoi'r planhigion. Roedd yn llwyddiannus dros ben. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd yr arwerthiant.

Gwasanaethau'r Sul

Mae'r gwasanaethu am 9.45yb

- | | |
|----------|--|
| 23.9.18 | Boreol Weddi |
| 23.9.18 | 5yh Canu Mawl Diolchgarwch Bro Ogwen |
| 30.9.18 | Gwasanaeth Diolchgarwch ar y Cyd, 10yb St Ann a St Mair, Mynydd Llandygái neu 11yb St Mair, Tregarth |
| 7.10.18 | Cymun Diolchgarwch |
| 14.10.18 | Boreol Weddi |
| 21.10.18 | Cymun Bendigaid |
| 28.10.18 | Boreol Weddi |

Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni yn y gwasanaethau.

Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.

Cynghori, gosod a thorri wigiau

Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw'r

Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

‘Plentyn y Rhyfel’

gan Wyn Thomas (4) - golygwyd gan Derfel Roberts

Wedi'r rhyfel, gwelsom ddanteithion yn dechrau cyrraedd y siopau. Dw i'n cofio fy nhad yn dweud wrthyf am fynd i siop Mrs Lenny yn y Gerlan i gael torth wen, a mawr oedd y croeso i'r frechdan o'r dorth honno; llawer gwell na'r bara melyn diflas a geid yn ystod y rhyfel. Un o uchelfannau'r wythnos oedd cael mynd i siop Woolworth ym Mangor a chiwio am fisgedi, a syllu ar y teganau newydd oedd wedi dod i law. Dw i'n cofio cael fy malŵn gyntaf, ac, wedi cyrraedd adref, chwarae gyda hi yn yr ardd i ddisgwyl i dad ddod adref i rannu'r hwyl. Yn anffodus disgynnodd y falŵn ar frigyn a byrstio, gan fy ngadael gyda thamaid o blastig tenau llipa yn fy llaw. Ceisiais ddefnyddio offer trwsio teiars beic i achub y falŵn, ond methiant oedd yr ymdrech wrth gwrs,. Mawr oedd yr hwyl hefyd wedi i mam ddod â'r fanana gyntaf adre a'i rhoi imi pan oedd ei ffrindiau acw. Syllais ar y peth melyn yma yn fy llaw a gofyn: 'Be' dw i'n ei wneud rŵan?' Cefais wers ar blicio croen banana ond wedyn gofynnais beth i'w wneud nesaf, a'r ateb rhwng y chwerthin oedd, "i b'ytia hi!"

Roedd prinder jeli wedi bod hefyd a daeth gwybodaeth fod peth i'w gael mewn siop *delicatessen* ym Mhendref, Bangor, siop a adwaenid fel 'Siop Jew bach'. Syndod oedd yr enw yma oherwydd bod pawb erbyn hynny'n gwybod am ddioddefaint yr Iddewon dan law'r Natsïaid. Fodd bynnag, cawsom jeli coch a rhyfeddais at y blas newydd yma oedd yn llawer gwell pwddin na'r jyncet oedd ar gael yn Siop Lenny.

Daeth y rhyfel i ben a'r dystiolaeth gyntaf o hynny sydd yn dod i'r cof oedd gweld brodyr fy nhad yn dod adref. Yncl Emrys yn rhoi arian Almaenig i mi gyda llun Hitler arnynt, ac Yncl Oscar yn dod adref o Burma ac yn dweud ei hanes yn cael ei saethu gan sneipar o fyddin Japan. Roedd 'na ychydig o ramant yn hyn i hogyn ond buan y daeth hwnnw i ben wedi clywed am ddioddefaint pobl fel Gwilym Burgess o Adwy'r Nant oedd wedi bod mewn gwersylloedd carchar yn Japan. Er mwyn cadw'i hun i fynd, soniodd wrthyf fel y byddai'n ddistaw ganu, 'Draw, draw yn Tsieina a thiroedd Japan, bastards bach melyn sy'n byw.' Cefais ddeall hefyd fod Ken, brawd fy mam, wedi marw mewn carchar Japaneaidd yn Formosa a bod taid Sowth, ei thad, wedi

marw yn Gibraltar tra gofalai am y twneli yn y graig.

Mae un atgof yn crynhoi fy nheimpladau o'm profiad yn ystod y rhyfel. Wedi i'r gyflafan ddod i ben a Hitler yn farw, cafodd y carcharorion rhyfel o'r Almaen a ddaliwyd gan y Prydeinwyr eu rhyddhau i weithio ym Mhrydain cyn cael mynd yn ôl gartref. Un o'r rhain oedd milwr o'r enw Franz Pongratz oedd wedi ei roi i weithio fel gwas yn fferm Tŷ Gwyn, Nant Ffrancon. Daeth yn ffrindiau gyda 'nhad a byddai'n dod acw am swper o bryd i'w gilydd. Hoffai chwarae gêm o ddartiau tra roedd fy mam yn trwsio'i ddillad. Dillad milwr yr Almaen oedd y rhain, wrth gwrs, a dw i'n cofio'i gôt fawr wyrddlwyd gyda phatrymau fel cylchoedd a thriongl mewn lliw melyn llachar wedi ei wnïo i mewn iddynt fel bod pawb yn gwybod mai cyd-garcharor oedd yn eu gwisgo. Roedd Franz bob amser yn dweud mai dim ond croeso a gawsai ym Methesda, ond pe bai'n mentro i Fangor roedd pobl yn barod i'w ddirmygu. Fel dyn clên iawn dwi'n ei gofio, un oedd yn defnyddio'i grefft i wneud teganau i mi. Roedd ei sgiliau yn rhyfeddu fy nhad ac roedd gweld Franz wrth ei waith yn cadarnhau'r gred fod 'Y Germans 'ma yn fedrus iawn ac yn gallu defnyddio'u dwy law'. Roedd Franz wedi prynu beic a mawr oedd ei siom pan gafodd yr hawl i fynd adref - ond heb ei feic. Cofiaf am byth ei haelioni wedi gorffen ei swper olaf yn ein tŷ ni, sef rhoi punt yn fy mhoced! Cefais i erioed y ffasiwn ffortiwn o'r blaen - roeddwn yn f'ystyried fy hun yn lwcus i gael tair ceiniog i'w gwario yn Regent House neu yn Siop da-da neis.

Welodd fy rhieni fyth mo Franz wedyn ond roedd o'n llythyru ac yn anfon cardiau Nadolig o'i gartref yn Ingolstadt ger yr afon Donwy (neu'r Danube yn Saesneg). Yna, ym 1973, roeddwn gyda Gwyn Erfyl yn ffilmio rhaglen yn ardal Munich ar gyfer HTV pan sylweddolais nad oedd Ingolstadt yn rhy bell. Llwyddais i gael y gwesty i ddod o hyd i rif ffôn Franz a'i alw a dweud wrtho am gyfarfod trên am 11:00 yng ngorsaf Ingolstadt i gwrdd â rhywun oddi ar y trên, a hynny heb ddatgelu pwy oeddwn i. Wrth fynd ar y trên, sylwais fod un dref rhwng Munich ac Ingolstadt ac mai Dachau oedd ei henw. Wedi cyrraedd Ingolstadt, gwelais Franz yn aros, nid y gŵr tal yr oedd cof

plentyn yn ei gofio oedd o, ond dyn eitha' byr ond parod ei groeso pan gyflwynais fy hun iddo fel 'mab Ben a Dolly o Fethesda'. Daeth ein swper ym Methesda i gof Franz a minnau, ac un o arferion fy nhad wrth fwyta ein cinio a Franz yn sydyn yn troi i'r Gymraeg ac yn dweud wrthyf, "brechdan". Dyna oedd dad yn arfer ei wneud dros y bwrdd bwyd gan gredu y byddai bwyta heb frechdan yn achosi camdreuliad.

Yn ddiweddarach ar y daith honno, aethom i ffilmio yng ngwersyll Dachau ble'r oedd cymaint wedi dioddef, a gweld y ffwrneisi lle llosgwyd y cyrff. Bu'r profiad yn destun hunllefau i mi am gyfnod. Yna ym 1994, y tro hwnnw gyda'r diweddar Brifardd Dic Jones, mynd i chwilio am gyn-garcharor arall a fu'n gweithio ar ffarm tad Dic, a chael y profiad o weld beddau'r miloedd yng ngwersyll Belsen. Gadawodd hyn ei farc ar Dic a chawsom gerddi rhyfeddol ganddo i gofio'r profiad iasoe'r hwnnw. Yn ystod y daith honno cawsom siawns i fynd i Stuttgart a Dic yn cael sgwrs â phrif weithredwr y dref, sef Manfred Rommel, mab y Cadfridog Rommel a gafodd ei ladd gan gefnogwyr Hitler am iddynt amau ei fod yn un o'r rhai oedd y tu ôl i gais i ladd y Fuhrer. Dyn hyfryd oedd Manfred Rommel, yn hoff o farddoni, a daeth Dic ac yntau i barchu ei gilydd yn fawr.

A dyna brofiad plentyn o Fethesda o'r rhyfel a gostiodd cymaint. Dod i adnabod Almaenwyr fel ffrindiau, ond ar drothwy eu drysau roedd gwersylloedd ble gwelsom yr erchyllterau gwaethaf a ddigwydd pan fo hiliaeth a chasineb yn codi eu pennau.

Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Caerhun a Glasinfryn

Cydymdeimlad

“Fydd Glasinfryn byth ‘run fath !” Dyna’r geiriau sydd wedi bod ar wefusau pawb ers marwolaeth Mary Vaughan Williams, 10 Bro Infryn. Merch oedd Mary i’r diweddar Mr a Mrs Môn Williams ac yn un o chwech o blant. Treuliodd ei hoes yng Nglasinfryn a bu’n hynod o weithgar ym mhob math o weithgareddau yn lleol. Yr oedd yn un o drefnwyr o sesiynau Bingo yn y Ganolfan sydd wedi codi cannoedd o bunnoedd i nifer helaeth o achosion da. Yr oedd yn aelod gwerthfawr o bwyllgor y Ganolfan ac yn Ofalwraig yr adeilad.

Yn bersonoliaeth gref yr oedd Mary bob amser yn barod i ddatgan ei barn a hynny yn aml mewn iaith liwgar! Bydd colled fawr ar ei hôl nid yn unig i’w theulu ond i’r gymuned gyfan. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei mab Richard a’i deulu, Brenda a Susan ei chworiydd, Geraint ei brawd a’r teulu oll yn eu colled

Daeth nifer dda iawn i’r angladd yn amlosgfa Bangor yn dangos teimladau a cholled ardal gyfan. Gorffwysed ei henaid mewn heddd.

Cylch Glasinfryn

Ar noson hyfryd o haf ar 13 Gorffennaf mwynhaodd aelodau’r Cylch ymweliad ag Eglwys Llanwenllwyfo, Dulas, Ynys Môn. Mae yn yr eglwys 26 o ffenestri lliw hynafol sydd wedi dod o fynachdy

yng Ngwlad Belg. Treuliwyd amser difyr ac addysgiadol yng Nghwmni Avril Lloyd, a roddodd esboniadau ar hanes y gwydrau lliw bendigedig. Wedi’r ymweliad aethom am bryd i’r Tavern on the Bay yn Nhraeth Coch. Pawb wedi cael noson werth chweil! Yn mis Medi daw Dr Shaun Russell atom unwaith eto i roi sgwrs – y tro yma ar ei waith ynghlwm â Phrifysgol Bangor yn Chile. Yna ar 10 Hydref am 7yh disgwyliwn Mary Axford atom i sgwrsio am “Marchogaeth i’r Anabl”. Mae croeso mawr i chwi ymuno â ni yn y Ganolfan.

Be’ sy ‘mlaen yn y Ganolfan?

Mae sawl dosbarth gwahanol yn cymryd lle yn y Ganolfan gan gynnwys tri dosbarth Ioga ar wahanol amser, dosbarth Qigong ac Arlunio . Mae Neuadd y Ganolfan yn gysurus iawn wedi ei charpedu gyda golygfa wych o’r ardal. Os hoffech logi’r Ganolfan at unrhyw achlysur neu ddosbarthiadau, cysylltwch â Mair Griffiths 352966.

Llongyfarchion

Llongyfarchiadau i Cadi Griffith, Bryn Gwredog Ganol ar basio ei arholiad cyntaf chwarae piano. Da iawn chdi, Cadi.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mike a Jocelyn Bowen, Tyddyn Llywelyn, Waen Wen ar ddathlu eu Priodas Aur ym mis Gorffennaf.

Y Garlleg Gorau gan Gilbert



Ar 18 Awst cynhaliwyd Cystadleuaeth Garlleg Moriarty-Thomas yn y Douglas. Mae hon bellach yn digwydd yn flynyddol ac yn ddiwrnod o fwynhau. Yr enillydd eleni oedd Gilbert Bowen o’r Gerlan, ac yn y llun fe’i gwelir yn derbyn y tlws gan Liz Sheahan, sef chwaer y diweddar John Moriarty Owen. Y beirniaid oedd Adrian Griffin, Andy Carson o Northern Welsh Quarries, Joe Hembrough (cogydd) a Malcolm Creasey (enillydd y llynedd). Chris Bailey Hughes oedd yn gyfrifol am wneud y cawl eto eleni.

Ystafelloedd i'w Llogi

Mae gan Bartneriaeth Ogwen ystafelloedd i'w llogi ym Methesda



Ystafell Gyfarfod Swyddfa Partneriaeth Ogwen
Addas ar gyfer cyfarfodydd hyd at 5 o bobol, cyfweiliadau neu gyfarfodydd un i un.

Ystafell Gymunedol Llyfrgell Bethesda
Addas ar gyfer cyfarfodydd mwy, hyfforddiant a gweithdai



Am fwy o wybodaeth am yr uchod neu i holi am unedau masnachol i'w rhentu ar Stryd Fawr, Bethesda, cysylltwch â:

partneriaeth@ogwen.org 01248 602131

Ffioedd yn dechrau o £10 i fudiadau cymunedol

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

UNIPART CAR CARE CENTRE

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

Ysgol Llanllechid

Croeso'n ôl
Croeso'n ôl i bawb ar ddechrau blwyddyn. Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yng nghwmni ein gilydd. Estynnwn groeso cynnes iawn i Ms Kate Mithan a Ms Gwenlli Haf, sy'n ymuno hefo ni ar y staff. Croesawn Ms Delyth Humphreys atom hefyd, sef cyn-bennaeth Cerddoriaeth Ysgol Dyffryn Ogwen.

Bingo Haf
Llawer o ddiolch i bawb a ddaeth i'r Clwb Criced i gefnogi ein Bingo Haf. Ein diolch arferol i aelodau'r pwyllgor. Gwnaethpwyd elw o £268.35 i gronfa'r ysgol.

Beicio Noddedig
Cafwyd noson o gadw'n heini i'r teulu cyfan ar ddiwedd y tymor a chafwyd amser bendigedig yn beicio yn yr heulwen ac yn cadw'n iach, a phawb wrth eu boddau yn mynd drwy'r twnnel tywyll i Dregarth ac yn ôl! Diolch unwaith eto i aelodau o'n pwyllgor Rhieni/Athrawon am eu gwaith di-flino.

Cyfarwyddwr Addysg
Cafwyd ymweliad gan Mr Garem Jackson a Dr Dianne Jones cyn i'r ysgol dorri am

wyliau'r haf. Ymweliad oedd hwn i edrych ar waith Ysgol Llanllechid yng nghydestun ein gwaith fel Ysgol Arweiniol Greadigol. Fel rhan o'r gwaith, bu ein hartist preswyl, Ms Anna Pritchard, yn helpu'r disgyblion i ail-wampio cyntedd Ysgol Llanllechid drwy greu celfyddyd heb ei hail. Mae murlun anferthol yn cynnwys tecstiliau, collage, argraffu, portreadu a pheintio ar un wal yn croniclo nodweddion a hanes Dyffryn Ogwen ac mae'r mynyddoedd wedi eu labelu er mwyn i'r disgyblion ddysgu eu henwau. Diolch i Ms Anna am ei gwaith bendigedig.

Yn ystod y prynhawn cafwyd cyfle i glywed y disgyblion yn ymwneud â gweithgareddau Siarter Iaith gan adrodd ystod o wahanol farddoniaeth a morio canu! Wrth ymadael, canmolodd y Cyfarwyddwr Addysg safonau ac ethos Ysgol Llanllechid.

Carnifal Ysgol Llanllechid
Syniad Mrs Rona Williams oedd y carnifal, ac am syniad da oedd hwn. Cafwyd môr o liw a gweithdai amrywiol gan gynnwys gweithdy drymio ar yr iard. Diwrnod i'w gofio!



Gwasgu afalau yn Llys Dafydd
Dydd Sul, 7 Hydref 2018, 11-3, Llys Dafydd, Stryd Fawr Bethesda
Yn dilyn diwrnod gwasgu afalau prysur a llwyddiannus y llynedd, mae Egin Ogwen wedi penderfynu cynnal un arall eleni. Unwaith eto, mae croeso i unrhyw un ddod â'i afalau a'i boteli (efo topiau), a gyda'n gilydd mi fyddwn yn malu'r afalau a'u gwasgu'n sudd i chi fynd adra efo chi.
Bydd croeso hefyd i chi ddod â'ch hoff fwydydd neu risetiau efo afalau, a gallwn ffeirio syniadau a blasu campweithiau ein gilydd (pwdinau, cacennau, prydau ac ati).
Os oes gennych gwestiwn, cysylltwch efo Judith judith.rachub@gmail.com neu 602672.

Nyth Y Gân
Cariad
Cariad o hyd sy'n curo, a heb os
Y bydd yn ein clwyfo;
Yn aml y cawn ei deimlo
Drwy oes yn ei gryfder o.
Yr Afon yn cyrraedd yr Aber
Mewn hiraeth mae hi'n ara' yn rhedeg
Ar hyd lawr y morfa;
Y ffrwd yn awr ni pharha,
A dof pan gaiff ei difa.
Barddoni
Gorwedd yn hir bu'r geiriau yn disgwyl
Am dasgau'r meddyliau
I'w dweud mewn gosodiadau
Yn y cof am hir cyn cau.
Bwrdd Adar
Godidog ydi hudo i'n gerddi
I gwrdd ac i'w bwydo;
Welwch chi hwy o'i gylch o
Acw'n difyr ymlacio.
Tarth yr Ucheldir
Mor araf y cerddai hyd lechwedd y glyn
Â'i wisg o liw melyn ond amlach yn wyn;
Ar brydiau fe guddiau'r ucheldir yn lân,
Dro arall fe fyddai ei wisg yn bur fân.

Yn sydyn diflannai gan fynd ar ei hynt
A gwelwn y mynydd yn glir megis cynt;
Yr oedd yr olygfa'r un fath ag o'r blaen
Heb ynddi'r un newid i borfa na maen.
Y Milgi
Mae yn hen ond mae'n heini; un ysgafn
Ei asgwrn yw'r milgi;
I rwyd naid ein prydau ni
I'n lluniaeth ddod a'n llenwi.
Rhwydo adar
(Hen arferiad)
Ni ddaw si na heddiw sain o gwbwl
O gaban rhai bychain
A heb fwyd mewn rhwyd mae'r rhain,
Hen dro yr adar druain.
Y Nodwydd gyntefig
Â'i fysedd fe'i dyfeisiodd, â'r teclyn
Hir taclus fe wñiodd;
O'r lladdiad fe ddilladodd
Wrth hen ffau yr arth na ffodd.
Cofio Golygfa
Naddwyd o'r hen fynyddoedd y darlun
O'r dorlan a'r cymoedd
Sy'n llawn o swyn y llynnoedd,
Ac fel gardd mor hardd yr oedd.
Dafydd Morris

Partneriaid yn cydweithio i atal sbwriel yn Nyffryn Ogwen

Mae menter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd wedi bod yn cydweithio gyda phartneriaeth o gynghorau cymuned lleol yn ardal Bethesda i helpu tacio'r problemau sbwriel a thipio anghyfreithlon yn diweddar.

Partneriaeth Ogwen sydd yn cydlynw ar ran y cynghorau ac maent am arwain yr ymgyrch amgylcheddol trwy gyflogi gweithiwr cynnal ran-amser.

Menter gymdeithasol yw Partneriaeth Ogwen sydd yn cael ei hariannu gan gynghorau cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygái. Nod y bartneriaeth yw gweithio er budd economi, cymdeithas a chymunedau Dyffryn Ogwen. Gyda hyn mewn golwg, penderfynodd y bartneriaeth yn ddiweddar i geisio gwella'r amgylchedd lleol trwy benodi gweithiwr cynnal newydd.

Y gweithiwr hwnnw yw Adam Quaeck. Meddai: "Mae'n wych cael y cyfle i helpu Partneriaeth Ogwen i lanhau'r a thacluso'r ardal. Dwi'n mwynhau siarad gyda phobl allan ar y stryd a dwi wedi cael ymateb ffantastig i'r gwaith o gael gafael ar y broblem sbwriel. Mae pawb yn gefnogol iawn ac mae'n dda gweld bod cymaint o falchder bro yn y gymuned."

Mae Trefi Taclus wedi darparu offer codi sbwriel i'r bartneriaeth, sy'n cynnwys cart pwrpasol i godi sbwriel.

Meddai'r Cynghorydd Rheinallt Puw sy'n cynrychioli Ogwen ar Gyngor Gwynedd: "Mae'r fenter atal sbwriel a thipio Partneriaeth Ogwen yn dangos sut mae'n bosib i gynghorau cymuned gweithio ar y cyd i oresgyn problemau hirdymor o sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae wedi bod yn wych gweld Adam a'i gert tacluso ar hyd strydoedd yr ardal a gobeithiaf caiff y fenter parhau. Diolch yn fawr i Drefi Taclus am eu cymorth."

Dywedodd Aelod Cabinet Priffridd a Bwrdeistrefol, y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith: "Mae'n wych gweld cynghorau cymuned yn cydweithio ar faterion amgylcheddol sy'n gyffredin iddyn nhw gyd. Mae sbwriel a thipio anghyfreithlon yn hagrau cymaint o'n cymunedau, felly

mae'n galonogol iawn i weld cynghorau yn cydweithio gyda chymorth Trefi Taclus i wella pethau i bawb."

Ariennir cynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru er mwyn ysgogi cymunedau i wella'r amgylchedd lleol.

Gall y rheiny sydd yn cael eu dal yn taflu sbwriel mewn man cyhoeddus cael eu gwysio o flaen y llys a'u dirwyo hyd at £2,500.

Am ragor o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd neu os bydddech chi'n hoffi cychwyn grŵp cymunedol, cysylltwch gyda'r tîm ar 01766 771000 neu e-bostio treftaclus@gwynedd.llyw.cymru i ofyn am becyn cymunedol.



Adam Quaeck o Bartneriaeth Ogwen gyda swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, Jonathan Neale

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig

Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

CHWILAIR

DIM CHWILAIR MIS MEDI

Mae Andre Lomozik wedi cael trafferthion difrifol gyda'i gyfrifiadur, ac o'r herwydd nid oedd yn bosib iddo baratoi'r Chwilair ar gyfer y rhifyn hwn! Mae Andre yn siomedig iawn ac yn ymddiheuro i selogion y Chwilair, gan fawr obeithio y bydd popeth mewn trefn erbyn rhifyn Hydref.

Dyma atebion Gorffennaf:- Pen-y-Bonc; Bryn Torcalon; Tua Tryfan; Bryniau Bach; Tros-y-Lôn; Y Maes; Y Chwarel; Glan Cegin; Twll y Tŵr; Yr Olygfa; O'r Diwedd; I'r Pant.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Gwenda Bowen, Gerlan; Rosemary Williams, Tregarth; Shaun Osian Hughes, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Doris Shaw, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Mrs M.A. Jones, Llanllechid; Mair Jones, Bethesda.

Enillydd Gorffennaf oedd Doris Shaw, 26 Llwyn Hudol, Bangor, LL57 1SG.

(Yn anffodus roedd atebion cywir Chwilair Mehefin gan Llewela O'Brien yn hwyr yn cyrraedd drwy'r post.)

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, **Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Catrin, Cae Glas gynt, ac Iestyn, nawr yn byw yn Wrecsam, ar enedigaeth mab, Efan Jac, brawd bach i Nel. Ein dymuniadau gorau hefyd i taid a nain Rhiwlas, Dafydd a Sali Whyte.

Cydymdeimlo

A hithau’n 100 oed bu farw Mrs Grace Roberts, gweddw’r Parch Emyr Roberts a mam a mam yng nghyfraith Dafydd ac Annes, Bwthyn Cefn Braich. Roedd yn nain a hen nain hoff i 14 o orwyrion. Bu gwasanaeth preifat yn y Rhyl, i’w ddilyn gan wasanaeth cyhoeddus yn Rhos y Gad, Llanfairpwll i ddathlu ei bywyd. Ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Trist oedd clywed am farwolaeth Ann Wilson Roberts, Llanberis, priod annwyl Gareth a mam garedig Mared, Gwenno a Rhydian a nain hoff yr wyrion. Bu’r teulu’n byw yn Dôl Frwynog, Caeau Gleision am flynyddoedd gan fod yn weithgar yn y pentref, yn y Capel, y Neuadd, Yr Urdd a Merched y Wawr. Bu’r blynyddoedd diwethaf yn anodd ond brwydrodd Ann yn ddewr. Cafwyd gwasanaeth byr i ddiolch am ei bywyd yng Nghapel Coch, Llanberis ac yna i ddilyn yn gyhoeddus yn yr Amlosgfa gyda’r Parch. John Pritchard yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd.

Llwyddiant addysgol

Llongyfarchiadau mawr i Osian, Bron y Waun am ennill y dystysgrif platinwm yn seremoni graddio Blwyddyn 7, Ysgol Dyffryn Ogwen, am ymdrech, presenoldeb, a gwaith o’r safon uchaf dros y flwyddyn. Yn ychwanegol mae Osian wedi llwyddo yn ei arholiad piano, gradd 3. Da iawn ti, Osian.

Penodiad

Bu Lliwen Jones, Ty’n Gadlas, Pentir, yn bennaeth dros dro yn Ysgol Tregarth a Bodfeurig ond bellach y mae wedi ei phenodi yn bennaeth parhaol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da yn y swydd.

Beirniadu

Braf oedd gweld Bet Jones ar banel beirniadu y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Fe gofiwn iddi ennill Gwobr Goffa Daniel Owen am ei nofel Craciau yn eisteddfod Dinbych yn 2013.

Llwyddiant Manon Steffan Ros

Pleser llwyr oedd gweld Manon yn codi fel

enillydd y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. ‘Ynni’ oedd y testun ac ysgrifennodd nofel â’r teitl Llyfr Glas Nebo. Yn ôl yr Archdderwydd, derbyniodd chwip o feirniadaeth ac yn ôl y beirniaid roedd yn geffyl blaen o’r dechrau ac yn llenor wrth reddf. Mae Manon a’r hogiau yn byw yn Nhywyn, Sir Feirionnydd ond wedi eu dwyn i fyny yn Rhiwlas, yn mynychu ysgol y pentref ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Nid yw’n ddieithr i lwyfan yr Eisteddfod gan iddi ennill y Fedal Ddrama ddwywaith. Yn ogystal, y mae wedi ennill gwobr Tir Na Nôg deirgwaith. Llonfyfarchiadau calonnog idi ac rydym yn ymfalchïo yn ei llwyddiant.



Manon Steffan Ros

Dymuno’n dda

Y mae Mis Medi yn gyfnod o newid i’r plant, cychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf, efallai, neu symud i ddosbarth newydd – dringo’r ysgol, fel petai. Bydd eraill yn gadael yr ysgol a mynd i addysg bellach neu addysg uwch. Pob dymuniad da i chi i gyd.

Hydref 13eg

Ar y dyddiad yma y mae criw ‘Genod Rhiwlas’ yn gwahodd unrhyw un sydd â chysylltiad ag Ysgol Waun i ddod i’r Neuadd ar y dyddiad uchod am 2 o’r gloch i gael paned, sgwrs a hel atgofion. Roedd sawl un wedi methu â dod i’r arddangosfa o hen luniau ac yn awyddus i gael cyfarfod arall i gwrdd â hen ffrindiau.

Diffib Rhiwlas

Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur iawn i Diffib Rhiwlas dros yr wythnosau diwethaf: - ‘Te Bach’ Ysgol Rhiwlas

Ar y gfed o Orffennaf bu i ddisgyblion Ysgol Rhiwlas weini te bach i drigolion yr ardal. Roedd digon o gacennau blasus ar gael, a llond tebot mawr o de! Llwyddodd y plant i godi dros £100 tuag at y gronfa – da iawn chi! Diolch i’r ysgol am ein cefnogi.

Ras Hwyl Pentir

Bu i rai o drigolion Rhiwlas gymryd rhan yn Ras Hwyl Pentir ar y 10fed o Orffennaf, sef ras 4.5k ar draws rhai o lwybrau a chaeau Pentir. Roedd y tywydd yn fendigedig, a phawb wedi mwynhau bwrllwm y ras. Bydd rhan o elw’r ras yn cael ei gyfrannu i gronfa Diffib Rhiwlas, ac rydym yn ddiolchgar dros ben i’n cymdogion ym Mhentir am eu cefnogaeth.

Helpa Drysor ar Olwynion

Cafwyd noson hwyliog ar y 18fed o Orffennaf wrth inni gynnal helpa drysor ar olwynion. Roedd yr helpa yn cychwyn o sgwâr Pentir, ac yna yn gorffen yn Nhafarn y Vaynol Arms, ble roedd cyfle am lymaid bach i dorri syched. Elwyn a Tony oedd yn gyfrifol am y cliwiau rhai ohonynt yn ddigon heriol! Genod Castell oedd yn fuddugol - da iawn chi! Diolch i Dafarn y Vaynol Arms am ein cefnogi.

Triathlon ‘Snowman’

Bu i’n Trysorydd, Hannah Lock, wthio ei hun i’r eithaf ar ein rhan drwy gystadlu yn y Triathlon ‘Snowman’ yng Nghapel Curig ar y 5ed Awst. Golygai hyn nofio 1km, yna beicio 70km, ac yna gorffen drwy redeg 10km. Roedd y cwrs yn un heriol iawn. Bu’n rhaid i Hannah ddefnyddio ei sgiliau meddygol yn ystod y ras (mae Hannah yn feddyg yn Adran Ddamweiniau ac Argyfwng Ysbyty Gwynedd) drwy stopio i helpu cyd-gystadleuydd oedd wedi ei anafu. Roedd y gŵr bonheddig wedi datgymalu ei benglin, a bu i Hannah roi’r benglin yn ôl yn ei lle yn ystod y ras. Da iawn ti, Hannah – rydym i gyd yn falch iawn, ac rwy’t yn esiampl i ni i gyd. Diolch i bawb sydd wedi noddi Hannah drwy ei thudalen ‘Just Giving’ – cyfanswm o bron i £300.

Cyfraniadau gan unigolion

Diolch i bob un sydd wedi cyfrannu i’r gronfa hyd yma. Mae cyfraniadau hael iawn gan unigolion wedi eu derbyn yn uniongyrchol i’r gronfa, ac yn help mawr i ni gyrraedd y targed ariannol. Diolch i chwi i gyd.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd Contractau

Contractwyr i Wasanaeth Ambiwylans Gogledd Cymru

Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Wedi blwyddyn prysur a hynod lwyddiannus y llynedd, mae Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen yn barod i ail-gydiad yn ein gweithgareddau am flwyddyn arall. Rydym yn dechrau'r flwyddyn gydag ymweliad arbennig gan Gwyn Thomas (Nant Ffrancon) ddydd Mawrth yr 11fed o Fedi am 8yh yn y Caban, Gerlan. Yr wythnos ddilynol byddwn yn cael taith noddedig o amgylch Llyn Idwal.



Meddai Meilir Griffiths ar ran y Clwb, "Mae yno groeso cynnes i aelodau hen a newydd ymuno gyda ni. Os ydych yn oedran blwyddyn 8 hyd at 26 oed, ac yn edrych am hwyl a phrofiadau newydd, dewch am dro i unrhyw gyfarfod. Rydym yn cyfarfod bob nos Fawrth am 8yh yn y Caban, Gerlan."

Llythyr

Annwyl Olygydd,
Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynhadledd flynyddol **Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru** sydd i'w chynnal eleni ym Mhrifysgol Bangor ar 6 Hydref 2018.

Agorir y gynhadledd gan Rhun ap Iorwerth, a'r siaradwyr a'u testunau fydd Hywel Wyn Owen: 'Enwau lleoedd Cymraeg yn Sir Gaer'; James January-McCann: 'A list of historic place-names: challenges and problems'; Ieuan Wyn: 'Mae'r mynyddoedd yn siarad'; Dylan Foster-Evans: 'Y wasg ac enwau lleoedd cyn 1914'; a Shaun Evans: 'Estates and archives in Wales'.

Mae'r rhaglen i'w gweld ar ein tudalen facebook: <https://www.facebook.com/CymdeithasEnwauLleoeddCymruWelshPlaceNameSociety/> neu gellwch ebostio enwaulleoedd@gmail.com i ofyn am gopi. Cost y gynhadledd yw £25 (£20 i aelodau) yn cynnwys cinio, ond rhaid cofrestru erbyn 21 Medi. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Fangor!

Yn gywir,
Angharad Fychan
Ysgrifennydd,
Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**,
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T
a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs,
Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr,
cofiwch am Siop Ogwen am eich holl
anghenion siopa! Galwch draw neu
rhowch ganiad i'r Siop am ragor o
wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i
Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org
01248 208 485

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

Yn ôl yn y tresi

Ar ôl seibiant byr dros fis Awst wedi cyfnod eithriadol o brysur yn canu gyda Damon Allbarn o'r grŵp 'Blur', y comediwr Saesneg, Al Murray a Mike Peters, prif leisydd y grŵp 'Alarm' ymysg galwadau arferol y côr, daeth yr aelodau at ei gilydd yn niwedd Awst i ganu yn Llandudno ac ym Miwmares.

Roedd y cyngerdd yn y llyfrgell ym Miwmares wedi ei drefnu gan fand pres ieuenctid o Swydd Efrog ac roedd y côr yno ar wahoddiad y band. Er nad oedd y gynulleidfa'n fawr, llwyddodd y côr i werthu niifer dda o grynoddsgiau ac fe gafwyd croeso cynnes i berfformiad y band a chyflwyniadau'r côr.

Ar Fedi 6 bu'r côr yn ôl ym Miwmares pan gafwyd cyngerdd arall yn Henllys. Yma eto roedd y croeso i berfformiad y côr yn hynod o wresog a llwyddwyd i werthu

ugain o grynoddsgiau Côr y Penrhyn sy'n cynnwys llais melfedaidd y tenor enwog, Rhys Meirion. Os na chawsoch chi eich copi o'r CD arbennig hwnnw byddem yn eich hargymell i brynu un ar unwaith gan fod CD newydd ar y gweill gennym.

CD Newydd

Mae'r côr yn brysur ynghanol y broses o greu CD newydd fydd yn cynnwys "Tiroedd ein Cof" gyda'r geiriau gan y Prifardd leuan Wyn a'r gerddoriaeth gan y Dr Owain Llwyd. Fe gofia darllenwyr cyson y golofn hon fod perfformiad byd-eang cyntaf y gân hon wedi ei roi yn Feniw Cymru, Llandudno gyda Band Pres Black Dyke yn ôl ym mis Mehefin y llynedd. Darn comisiwn gan y côr yw hwn ac felly mae'n teilyngu lle blaengar ar y recordiad newydd o eiddo Côr y Penrhyn. Gobeithir cael y recordiad yn barod erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ddechrau mis Gorffennaf cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen, gyda'r un swyddogion yn cael eu hethol. Bydd Sue Davies a K.C. Gordon yn cynrychioli'r gangen ar Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Arfon, gyda K.C. ar Bwyllgor Ymgychu Arfon hefyd.

Cynhaliwyd y cyfarfod deufisol yn syth wedyn, ac ymhlith y materion nodwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno isafswm-bris ar alcohol a bod treth ar blastig yn cael ei hystyried. Hefyd, bod cynnydd sylweddol yng Ngwynedd mewn cyraeddiadau TGAU ymysg plant sydd mewn gofal, a bod Cyngor Gwynedd yn bwriadau gwario tua £50,000 y flwyddyn am dwy flynedd i gyflogi swyddog i'w helpu i arbed arian! Yn ogystal â hyn, adroddwyd bod Partneriaeth Ogwen yn bwriadau prynu'r siop drws nesaf i Swyddfa Ogwen ar gyfer mentrau gwyrdd a bod Cyngor Cymuned Bethesda yn cefnogi'r cais i ddynodi clwstwr o bentrefi chwareli llechi (gan gynnwys ardal Chwarel y Penrhyn) fel ardal Treftadaeth y Byd. Tynnwyd sylw at erthyglau yn y Daily Post gan Derek Vaughan (aelod seneddol Llafur Cymru yn Ewrop)

Penderfynwyd cynnal taith gerdded noddedig flynyddol y gangen tua diwedd mis Medi os bydd y tywydd yn ffafriol ond ar ddechrau mis Hydref fel arall.

Tua chanol y mis cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Plaid Lafur Arfon ac ymysg y swyddogion a etholwyd oedd Eirian Roberts (a gafodd ei haddysg yn Ysgol Dyffryn Ogwen) fel Swyddog y Wasg a Jane Foster-Coulter (o bentref Llandygái) fel Swyddog y Merched.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Trefnydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lôn y Wern, Tregarth, BANGOR, Gwynedd LL57 4BA. (01248) 600798
E-bost = dafydd@caerwern.cymru

RHAGLEN 2018/2019

Cynhelir yr holl gyfarfodydd ar yr **ail Nos Lun** ymhob mis am **7.00 o'r gloch AG EITHRIO** cyfarfod mis Hydref. Bryd hynny cynhelir y Cyfarfod Blynyddol am 7.00 o'r gloch, a bydd y ddarlith yn cychwyn am **7.30 o'r gloch**.
Lleoliad y cyfarfodydd: **Festri Capel Jerusalem, Bethesda**

2018

Nos Lun 8 Hydref	7.00	Y CYFARFOD BLYNYDDOL
	7.30	John LI Williams a Dafydd Roberts – Chwarel Pantdreiniog, W.J. Parry a'r Mudiad Cydweithredol
Nos Lun 12 Tachwedd	7.00	Einion Thomas – Dynion Parchus? Y Potsiars Cymreig
Nos Lun 10 Rhagfyr	7.00	Arwyn Oliver – Taith at hyd y Lôn Las

2019

Nos Lun 14 Ionawr	7.00	David Elis-Williams – Dilyn yr A5 – ond ble roedd y ffordd yn Telford ?
Nos Lun 11 Chwefror	7.00	Wyn Bowen Harris – Hanes Cynnar Comin Llanllechid
Nos Lun 11 Mawrth	7.00	Cynrig Hughes – Plas Pentir

[Darlith Goffa Rhiannon Rowlands]

FFI AM Y CWRS: Y ffioedd i'w talu i Dafydd Roberts cyn noson gyntaf y tymor, os gwelwch yn dda. Sieciau yn daladwy i: Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. £6.00 i rai mewn gwaith. £3.00 i bensynwyr a'r di-waith.
Plant ysgol am ddim. Cost darlithoedd unigol = £1.50

Swyddogion y Gymdeithas yn ystod 2017/18:

Cadeirydd :Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth (01248) 602021
Trefnydd / Trysorydd: Dafydd Roberts, Cae'r Wern, Lôn y Wern, Tregarth. (01248) 600798
Ysgrifennydd: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 Sais yn wallgof, ond Cymro'n rhinweddol a da (3)
- 3 O law hogan drefnus gwelwn nad ydynt yr un fath o gwbl (8)
- 8 Heb ei dreulio eto (7)
- 9 Ydi'r sant arbennig yma yn arfer chwalu gwrtaith mewn llan yn y de ? (5)
- 10 Deunydd stwnsh blasus i ginio (5)
- 11 Swnio fel llawer o hanesion i ddyn fel hwn i'w hadrodd (7)
- 12 Dyma wnaeth y wraig yn y tŷ wedi colli un o'i deg darn arian (*dameg yn Luc*) (6)
- 14 "Llithrodd ei flewyn cringocho dros y grib" meddai soned enwog R.W.P amdano (6)
- 18 Eisteddfod Penbedw 1917, " - ----- Ddu" (1,6)
- 20 Gorffen busnes ar ddechrau ffair flêr i chwilio am garreg werthfawr (5)
- 22 Ynghanol cyfarfod annisgwyl cafodd y Cofi gariad (5)
- 23 Llfeiriant y môr ar ei uchaf (7)
- 24 Lwcus a ffodus (8)
- 25 Cyfnod (3)

I LAWR

- 1 Syrjeri cerbydau ! (7)
- 2 Dŵad (*barddonol*) (5)
- 3 Gweithred anffyddlon yn aml yn diweddu mewn ysgariad (7)
- 4 Ydi'r stori'n wir tybed ? Dyna'r si glywais i (6)
- 5 Nid da lle gellir gwell, mae lle i ti ----- (5)
- 6 Ein pwnio ni bob sut i roi barn neu safbwynt (7)
- 7 Glafoerion (4)
- 13 Chwerthin a chael sbort am ben rhywun (7)
- 15 Llymeirch, bwyd o'r môr (7)
- 16 Crwys yn clirio dail, "Pentwr arall; yna ----- ennyd ar yn ail" (7)
- 17 Rhaid torri hon cyn bwyta 15 I Lawr (6)
- 18 Awydd (4)
- 19 Mewn dyled ? Faint sydd ----- ? (5)
- 21 Effro a bod yn gandryll i gweryla (5)

ATEBION CROESAIR GORFFENNAF
AWST 2018

- AR DRAWS** 1 Bedw, 3 Pabi, 7 Bryste, 8 Ymenyn, 9 Bryn Myrddin, 11 Syllu/ Rhythu, 12 Ddoe,13 Rhewi, 14 Nos Loergan, 17 Difetha, 18 Islwyn, 19 Bara, 20 Suro/Mulo
- I LAWR** 1 Borebryd, 2 Distyllu, 3 Poeni, 4 Brys, 5 Hel Meddyliau, 6 Llyfr Genesis, 10 Gwenwyno, 13 Rhigolau, 15 Opera, 16 Llipa/Tila

Yn achlysurol iawn mae mwy nag un gair yn medru ateb yr un cliw. Ond y tro yma digwyddodd hynny deirgwaith gan achosi cryn benbleth i mi! Wedi ymgynghori â sawl geiriadur deuthum i'r penderfyniad

1		2		3		4		5		6		
											7	
8							9					
10						11						
12		13					14	15				16
						17						
18				19			20		21			
22						23						
	24									25		

mai teg fyddai derbyn yr amrywiaethau fel atebion cywir. (Gweler yr atebion uchod 11 a 20 Ar Draws, ac16 I Lawr).

Y gwall mawr arall oedd 4 I Lawr – chwech ohonoch wedi cynnig ‘Bryn’ yn ateb yn lle ‘Brys’. Yr unig gamgymeriad arall oedd ‘Niweda’ yn lle’r ateb cywir ‘Difetha’.

Ond llongyfarchiadau mawr i’r canlynol am atebion cywir : Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Ann Carran, Bryn a Gwen Evans, Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Laura a Marian Arman, Bethesda; David T. Hughes,

Cyffordd Llandudno; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Iona Williams, Llanddulas; John H. Evans, Llanberis; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Donna Coleby, Penwortham; Dilys Parry, Rhiwlas; John R. Jones, Llanllechid.

Yr un sy’n mynd â’r wobr y mis yma am atebion hollol gywir ydi Ann Carran, 26, Ffordd Ffrydlas, Carneddi, Bethesda, Gwynedd LL57 3BL. Da iawn chi.

Atebion erbyn 5 Hydref, 2018 *fan bellaf* i ‘Croesair Medi’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

Atebion erbyn 5 Hydref, 2018 i ‘Croesair Medi’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

Gwelliannau

Wedi i'r cynghorydd Godffrey Northam gwyno, mae'r ysbwriel a oedd wedi ei adael ger mynwent Coetmor wedi ei glirio, a'r marciau ffordd ARAF/SLOW yn Llwyn Bleddyn wedi cael eu hail-beintio.

Hen Barc

Mae'r gwaith draenio ar ffordd Hen Barc wedi ei gwblhau. Gobeithio na fydd llifogydd yn poeni'r trigolion cyfagos yn y dyfodol.

Torri gwair

Wedi i'r cynghorydd Pearl Evans gwyno, torrwyd y glaswellt yng nghae chwarae Talysarn, Rachub, ger croesffordd Bryn Bela.

Gwyliau

Croeso adref i Ron a Wendy Jones Bron Arfon wedi ymweliad arall i Ganada, ac i deulu Ann Tugwell wedi gwyliau tramor.

Ci newydd

Cyrhaeddodd ci bach newydd i gartref Hari a Hana Jones Llwyn Bedw, gan ddod â thipyn o hwyl a chynnwrf ar y stad.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Jean Williams, 60 Maes Bleddyn wedi cynhebrwng John (Jack) ei gŵr.
Hefyd cydymdeimlwn â theulu Gwenda a Cedrick Eames, 59 Maes Bleddyn wedi cynhebrwng eu merch Laura.

Gwellhad buan

Dymunwn yn dda i Tegwen Northam (sydd yn Aberdeen) wedi iddi dorri ei braich yn ddiweddar. Y mae'r eglwys yno'n ei helpu. Dymunwn wellhad buan i Beti Allsup a fu yn yr ysbyty am gyfnodau dros yr haf.

Arholiadau

Llongyfarchwn blant yr ardal sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau'n ddiweddar, yn enwedig Owain Morgan Lôn Newydd a gafodd 4 A seren yn ei arholiadau Safon Uwch.

Bedydd a diolch

Bedyddiwyd Bela Haf gan y Parchedig Dr Huw John Hughes yn 10 Llwyn Bedw yng nghanol mis Gorffennaf, gyda chynrychiolaeth o Gapel Carmel yn bresennol.
Dymuna Sioned a Kieran, 10 Llwyn Bedw ddiolch i bawb a fu'n hael a charedig ar achlysur bedydd Bela Haf, ac am ei anrhegion pen-blwydd yn 1 oed hefyd.

Clwb Llanllechid

Ddydd Mercher Gorffennaf 4ydd cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb. Croesawyd pawb i'r cyfarfod. Gyrrwyd cofion at Myfanwy yn Ysbyty Gwynedd, ac at Medi sydd ddim yn dda, a Rhiannon sydd yn disgwyl triniaeth i'w chlun.
Dymunwyd yn dda i bawb oedd wedi cael eu penblwyddi ers i ni gwrdd ddiwethaf. Dymuniadau arbennig i Rita yn 90 oed. Cyflwynwyd blodau iddi ar ran yr aelodau gan Mrs Margaret Owen. Rhoddwyd y raffl gan Glenys Rowlands, a Rita enillodd! Ein siaradwr gwadd oedd Mrs Glenys Sullivan sy'n Fatron yn Hosbis Dewi Sant. Cafwyd gwybodaeth am waith yr hosbis, sut oedd codi arian, a'r gobaith o ehangu'r gwaith i'r gymuned yn y dyfodol. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 26ain.

Capel Carmel

Trefn Gwasanaethau

- Medi 23: Gweinidog
- Medi 30: Parchg. John Lewis Jones.
- Hydref 07: Gweinidog (Cymun).
- Hydref 14: Diolchgarwch.
- Hydref 21: Miss Nerys Jackson.

Oedfaon am 5.0yh oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Prysor, nos Wener am 6.30.
Te Bach, dydd Llun, 24 Medi. 2.30 - 4.00.

Anfonwn ein cofion at yr holl aelodau sy'n sâl, gan ddymuno gwellhad buan iddynt. Rydym fel Eglwys yn cydymdeimlo â theulu o Biwmares, sef Dave, Gwen a Dai-Ifor yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl, sef y ddiweddar Mrs Janet M. Jones, Moelfre ar 20 Awst. Mae tymor yr Hydref wedi cyrraedd unwaith eto, a'r amrywiol weithgareddau wedi ail-ddechrau. Mae croeso i blant a phobl ifanc ymuno efo ni o'r newydd yn yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Prysor. Mae'r Dosbarth Gwau a gynhelir bob yn ail bnawn Llun, rhwng 2.00 a 4.00 o'r gloch, wedi ail-ddechrau hefyd. Mae croeso i bawb ymuno efo ni a hefyd yn y Te Bach a gynhelir ar 24 Medi am 2.30yp.

Carneddi

Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i'r Parch. John a Mrs Elina Owen, Wernos, Cilfodan ar ddathlu eu Priodas Ddiemwnt ar y 9fed o Awst. Trefnwyd parti ym Mhlas Ogwen i ddathlu'r achlysur a derbyniwyd cyfarchion lu gan gyfeillion a chymdogion.

Pen-blwydd arbennig

Dymunwn yn dda i'r Parch. John Owen hefyd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed ar 11 Medi. I'w gyfarch ar yr achlysur, daeth Dafydd Iwan i Blas Ogwen a chafwyd pnawn difyr yn gwrando arno'n perfformio.



Diolch

Dymuna Elina a'r teulu ddiolch yn fawr i staff Plas Ogwen am yn trefniadau ardderchog i wneud y ddau achlysur yn bleserus.

Ennill Cystadleuaeth Golff yr Eisteddfod

Llongyfarchiadau i Mrs Pat Corns, Cilfodan a'i phartner o Henllys ar ddod i'r brig yn adran y merched yn y gystadleuaeth golff agored a gynhaliwyd ym Maesdu, Llandudno ym mis Gorffennaf. Mae Pat yn aelod yng Nghlwb Golff Henllys ers rhai blynnyddoedd ac yn mwynhau'r gêm a'r cystadlu yn fawr.
Trefnwyd y gystadleuaeth gan Bwyllgor Apêl Deganwy a'r cylch ac aelodau o Faesdu a llwyddwyd i godi dros £1000 at yr achos.

Owen's

Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

TEMPLE MORRIS A'I FAF

Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Digwyddiadau Ynni Lleol a Chynladwyedd

Dros y misoedd nesaf y mae Partneriaeth Ogwen, Clwb Ynni Lleol Bethesda a chonsortiwm Cyd Ynni yn trefnu tri digwyddiad a fydd yn gyfle i drigolion yr ardal gael gwybodaeth am brosiectau amgylcheddol y Bartneriaeth a dysgu rhywbeth newydd am sut i fod yn gynaliadwy ac arbed arian yr un pryd! Y mae'r holl ddigwyddiadau yn rhad ac am ddim. Am fanylion pellach ar bob digwyddiad cysylltwch â Phartneriaeth Ogwen ar 01248 602131 neu post@ogwen.org.

Medi 22ain – Diwrnod Cynaliadwyedd Bwyd
Yn y bore fe fydd taith casglu madarch yn cael ei harwain gan Cynan Jones o Ardd Fadarch Eryri a fydd yn gyfle i adnabod madarch a ffwng bwyadwy (a pherygl). Yn dilyn y daith bydd arddangosfa o sut i baratoi prydau bwyd maethlon am gost isel ac osgoi gwastraff. Ceir gwybodaeth hefyd am bwysigrwydd bwyd lleol a bwyd yn ei dymor.

23 Hydref – Cludiant Cymunedol a Cherbydau Trydan
Gyda chefnogaeth nifer o bartneriaid, byddwn yn trefnu cyfarfod i drafod diffygion a photensial y rhwydwaith cludiant cymunedol yn lleol. Bydd syrjery i bobl gael dweud

eu dweud a bydd arddangosfa o geir trydan ar gael, a gwybodaeth am bwyntiau gwefru. Byddwn hefyd yn darparu gweithgareddau i ddiddanu'r plant.

Tachwedd 24ain Ffair Arbed Ynni – Neuadd Ogwen, 9.30-2.00
Yn dilyn y ffair arbed ynni gyntaf fis Chwefror 2017, bydd hon eto yn gyfle i ddod i drafod unrhyw beth sydd ar eich meddwl ynghylch sut i arbed ynni. Bydd yna stondinau gyda chynghor am gadw'ch cartref yn gynnes a'ch biliau ynni i lawr, gwybodaeth am brosiectau ynni cymunedol yr ardal, tecynnau amrywiol sy'n gallu arbed ynni, a chynghor i fusnesau am sut i fod yn wir gynaliadwy. Hefyd bydd cyfle i gyfrif eich ôl troed carbon, i ddefnyddio camera isgoch i weld lle mae'r gwres yn dianc o'r tŷ, ac ambell i weithgaredd ymarferol arall. Dowch i gael sgwrs am arbed ynni yn gyffredinol neu gyngor penodol, neu i rannu eich syniadau a'ch profiadau eich hunain.

Am fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r digwyddiadau uchod, cysylltwch â Partneriaeth Ogwen 01248 602131 partneriaeth@ogwen.org

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, **Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Gŵyl Afon Ogwen, 2018

Y 9^{ed} Wyl - Penwythnos 28, 29, 30 Medi

NOS WENER, MEDI 28

Y Douglas. Lorna Todd a Chantorion Oriana. 8.00yh.
Dydd Sadwrn, Medi 29.
Yn Ffestri a Gardd Capel Jerusalem: 10.00yb – 5.00yh
Arddangosfa Gelf, Ffotograffiaeth a Chwiltio.
Bomio-edau ‘Môr ac Arfordir’
‘**Pennill a Llais**’, 2.00 - 3.30yh
Côr Cymdeithasol Bangor,
‘**Conran Corws**’ (Barddoniaeth Tony Conran)
‘**Hopewell Ink**’ (Geiriau a Cherddoriaeth Electroneg)
Parc Meurig a’r hen Lawnt Bowlio: 10.00yb – 5.00 yh
Trywydd Gerfluniau, Mulod Eryri, canu gan ‘**Boncathod**’
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Cyfeillion y Ddaear, Casglwyr Spwriel. Gweithgareddau Teulu - creu morfil i gasglu spwriel. ‘Ysgol Goedwig’ - adeiladu lloches.
Taith Gerdded Hanesyddol ddwyieithog gyda **Gareth Roberts** i Rachub a Llanllechid. Dechrau wrth siop Spar, 11.00yb.
Hefyd, **Sgwrs a Cherdded** i ymweld â **Hydro Ogwen** 11.30yb.
Neuadd Ogwen: Celf yn y Bar a Gig yn y Bar am 8.30yh
Melin Cochwillan, Talybont, LL57 3YB - **Diwrnod Agored**

DYDD SUL, MEDI 30

Y Ffestri a Gardd Capel Jerusalem 11.00yb - 4.00yh
Arddangosfa a Bomio-edau - fel y dydd Sadwrn,
Hefyd, perfformiad ‘Merched Chwarel’ 12.00 - 4.30yh
Mr Kobo - Arlunio i bob oed.
Sgwrs a Cherdded i Hydro Ogwen 11.30yb
Taith gerdded ddwyieithog ‘**Gwenoliaid Du ym Methesda**’ gyda **Ben Stammers.**
Y Douglas. Cerddoriaeth Ganoloesol Gymreig ‘**Bragod**’ - crwth, telyn a llais 2.00yh
Neuadd Ogwen: Celf yn y Bar
Lawnt Bowlio Parc Meurig: Gweithgareddau Teulu - fel ddoe.
Llys Dafydd: **Nos Wener a Nos Sadwrn** - 5.00yh
‘**Pop Up Pizza**’ a cerddoriaeth.



Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Canrif i'r Mis Diwethaf		
David Owen	25 ml. oed	8.8.1918
Idwal Davies	31 ml.	19.8.1918
John Richard Williams	24 ml.	23.8.1918
Thomas Philip Williams	29 ml.	27.8.1918
Evan Gwilym Jones	24 ml.	31.8.1918
Canrif i'r Mis Hwn		
Edward Jones	29 ml.	1.9.1918
David Oliver	28 ml.	3.9.1918
Hughie Jones	20 ml.	22.9.1918
Robert Roberts	48 ml.	29.9.1918
(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)		

Nant Ffrancon

Llwyddiannau

Llongyfarchiadau i Elfed Jackson a Beca Jackson ar eu llwyddiant mewn cystadlaethau cneifio gwelleifiau ar hyd a lled y wlad eleni. Mae Beca, sydd ddim ond yn 17 oed, wedi ennill cystadlaethau newyddian cneifio gwelleifiau eleni yn Llysfasi, Lakeland a Sioe Frenhinol Cymru, ac wedi dod yn ail a thrydydd mewn nifer o sioeau eraill hefyd.

Mae Beca hefyd wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadlaethau trin gwlân, a

chafodd y fraint o gynrychioli Cymru fel rhan o'r tîm datblygu, yn Sioe y Royal Ulster ym Melfast fis Mai. Daeth y tîm yn drydydd.

Llwyddodd Elfed hefyd i ennill mewn nifer o sioeau gan gynnwys dod yn Bencampwr Gwelleifiau Cymru yn y Sioe Frenhinol. Cafodd ei ddewis i gynrychioli Cymru am y 10fed tro ym Mhencampwriaeth Cneifio'r Byd a fydd yn cael ei chynnal yn Ffrainc fis Gorffennaf 2019. Mae Elfed wedi bod yn aelod o dîm Cymru ers 1998.



Ysgol Pen-y-bryn

Gair o ddiolch

Hoffem fel dosbarth ddiolch o waelod calon i Mr Ken Jones am ei rodd ariannol gwerthfawr i Flwyddyn 6 Ysgol Pen-y-bryn! Mae Mr Ken Jones yn gyn-ddisgybl yma, a bellach wedi ymgartrefu yn Llundain. Rydym yn gwerthfawrogi eich haelioni! Diolch o galon gan Flwyddyn 6 Ysgol Pen-y-bryn!

Cwm Idwal

Fe fentrodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar daith gerdded i Gwm Idwal ddiwedd y tymor. Am ddiwrnod gwych! Pawb wedi mwynhau y golygfeydd godidog a chael dysgu mwy am Gwm Idwal wrth i ni gael ein tywys ar y daith gan Morfudd, Cemlyn a Nathan! Pawb wedi bod yn wych, a phrin dim cwyno am y cerdded!!



Rhoddd i Dîm Achub Mynydd Llanberis

Fe ddaeth Mr John Grisdale i'r ysgol yn ddiweddar i dderbyn siec o £600 ar ran Tîm Achub Mynydd Llanberis. Bu i Flwyddyn 5 a 6 benderfynu fynd ati i drefnu 'Prynhawn Hwyl' er mwyn casglu pres tuag at yr achos yn dilyn ymweliad Mr Grisdale â'r ysgol y mis diwethaf. Ymdrech wych Blwyddyn 5 a 6!



Diwrnod Gwyrdd

Ddydd Mercher 11/07/18 cawsom 'Ddiwrnod Gwyrdd' yn yr ysgol. Yn ystod y diwrnod, fe wisgodd pawb rywbeth gwyrdd a chafodd pob dosbarth gyfle i gylchdroi pedwar gweithgaredd - garddio a thacluso'r ardal allanol yma ym Mhen-y-Bryn ac yn Abercaseg, casglu sbwriel o amgylch Bethesda a chyflwyniad am bwysigrwydd Ailgylchu, a chyfle i greu rhywbeth allan o ddeunydd ailgylchu. Fe fwynhaodd pawb y diwrnod. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Adam a Paul o Falchder Bro a Phartneriaeth Ogwen am eu cymorth i gasglu sbwriel ynghyd â'r gwirfoddolwyr. Diolch yn ogystal i Gwennllian o Gaergylchu am y cyflwyniad am bwysigrwydd ailgylchu.

PEN Y CEUNANT ISAF

Y BWTHYN TÉ

www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606

gair neu ddau

John Pritchard

Ateb Cwestiynau


Gavin Williamson, Jeremy Corbyn, Alun Cairns a Theresa May. Gellid o bosibl eisoes ychwanegu sawl gwleidydd arall at y rhestr, ond mae’n sicr y bydd modd gwneud hynny cyn bo hir. Dros yr haf, gwelwyd y pedwar ohonynt yn wynebu dull cymharol newydd o holi yn y byd gwleidyddol sydd ohoni yng ngwledydd Prydain. Ac roedd yn gwbl amlwg nad oedd yr un ohonynt yn croesawu’r holi hwnnw. Mewn gwirionedd, roedd y pedwar yn anghyfforddus iawn. Yr un peth a oedd yn anesmwytho’r pedwar oedd bod y gohebwyd a oedd yn eu holi yn ail ofyn yr un cwestiwn drosodd a throsodd am fod y gwleidyddion yn gwrthod ei ateb. Gwelwyd Theresa May, er enghraifft, ar drothwy ei hymweliad ag Ynys Robben lle carcharwyd Nelson Mandela, yn gwingo wrth i Michael Crick o *Channel 4 News* ofyn beth a wnaeth hi ei hun i ddwyn perswâd ar Lywodraeth De Affrica i ryddhau Mandela ac i ddileu apartheid yn y wlad honno. Mynnai Mrs May osgoi’r cwestiwn trwy geisio dweud mai’r hyn a wnaethai’r Llywodraeth Brydeinig oedd yn bwysig, ond daliai’r gohebydd i ofyn ac ail ofyn y cwestiwn. A chan nad atebai’r Prif Weinidog mohono, fe atebodd y gohebydd drosti trwy ddweud na wnaeth hi unrhyw beth o gwbl. Profiad digon tebyg a gafodd y tri arall dan law gohebwyd a wrthododd iddynt hwythau beidio ag ateb cwestiynau syml a ofynnwyd iddynt. A ninnau wedi arfer â gwleidyddion yn cael llonydd i wrthod ateb cwestiynau, mae’r duedd hon i ail ofyn y cwestiwn a pheidio â gadael iddynt droi’r stori yn amheuthun iawn.

Cymaint gwell fyddai i’r Prif Weinidog fod wedi cydnabod na wnaeth hi, tra oedd Mandela yn ei gell ar Ynys Robben, gefnogi’r un brotest na gwrthod prynu unrhyw nwyddau a wnaed yn Ne Affrica. Byddai’r holwr a gwylwyr y rhaglen wedi gwerthfawrogi ateb gonest felly. A’r un modd, mor bwysig ydyw i Gristnogion roi atebion gonest i’r cwestiynau a ofynnir iddynt hwythau. Y mae yna lawer o gwestiynau na allwn eu hateb, am Dduw, am Grist, am Y Beibl, am fywyd, am ddiodefaint, am farwolaeth ac am lu o bethau eraill. Mae’n bosib nad oes ateb; mae’n bosib fod yna ateb ond na wyddom ni beth ydyw. Atebwn yn onest, er i hynny ddangos anwybodaeth neu ddiffyg dealltwriaeth. Mae’n bosib y byddai ateb gonest i rai cwestiynau ynglŷn â’r bywyd Cristnogol yn bradychu’n gwendidau ni ein hunain. Er hynny hefyd, atebwn mor onest ag y medrwn gan ymddiried y bydd yr Arglwydd yn arddel ein hymdrechion i ymateb i gwestiynau pobl hyd orau ein gallu yn ôl y ddealltwriaeth anghyflawn a roddwyd i ni yn hyn o fyd.



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Marchnad Ogwen

Mae croeso yn eich disgwyl ym Marchnad mis Hydref, sef y 13eg yn Neuadd Ogwen o 9.30 – 1.00.

Braf yw croesawu Shirley Jones gyda’i stondin ‘Trysorau Tlws’ atom i Farchnad Ogwen. Os ydych yn hoffi gwau, wel dyma’r stondin i chi. Gwlân, botymau unigryw a rhubanau, ychydig o ddillad plant wedi eu gwau, a hefyd sebon. Hogan o Pesda! Croeso, Shirley.

Er hysbysebu stondin fara newydd dan ofal cwmni o Fôn yn y Llais mis Gorffennaf, ni welwyd lliw na llun ohonynt. OND, newyddion da, mae Gethin Sherrington yn ymuno â ni o fis Medi ymlaen. Bachgen ifanc hwyliog sy’n mynd i fod yn gaffaeliad mawr

i ni. Croeso, Gethin.
Mae ‘Bois y Bloda’ wedi rhoi’r gorau i’w stondin dros dro gan fod tymor y blodau blwydd ac ati drosodd. Maent yn gobeithio dod yn ôl gyda blodau a phlanhigion addas ar gyfer y Nadolig.
Mae Jojo Elis-Williams wedi rhoi’r gorau i’w stondin ‘Pethau Bach Hud’ sef dillad chwarae i blant. Diolch yn fawr i Jojo am yr amser y bu efo Marchnad Ogwen ac rydym yn dymuno’n dda iddi.
Mae’r Stondin Elusen mis Hydref yng ngofal Eglwys y Santes Fair, Tregarth. Y nesaf sy’n rhydd yw Chwefror 2019.
Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd ar facebook.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda’ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Camp a Rhemp

gan Tony Llewelyn

Cynhyrchiad newydd gan Gwmni Drama Llechen Las

NEUADD OGWEN

Nos Wener, Medi 28ain

Tocynnau ar werth yn fuan!!

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

Lle mae gwyliau'r haf wedi mynd, deudwch? Mae hi'n fis Medi'n barod, a blwyddyn ysgol newydd wedi hen dechrau. I bawb ohonoch, lle bynnag y boch, boed mewn addysg, yn cychwyn ar brentisiaeth, neu mewn swydd am y tro cyntaf, dymunwn y gorau i chi i gyd.

Llongyfarchiadau i'r bobl ifainc fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau. Braf oedd gweld rhai o 'blant' y pentref adref dros y gwyliau, yn edrych mor dda, yn amlwg yn mwynhau eu cyrsiau dewisiedig, a bywyd coleg!

Ni fu'r haf yn ffeind wrth bawb. Cydymdeimlwn yn ddwys efo Keith, Linda a'r meibion, 81, Bro Emrys. Bu farw mam Keith, Mrs Beryl Jones, yn ystod mis Awst. Gwraig annwyl iawn oedd Beryl, bob amser yn barod ei sgwrs a'i gwên. Byddai wrth ei bodd yn dod i Dalybont, i edrych ar ôl y ci bach. Bydd colled mawr ar ei hôl ymysg ei theulu a'i ffrindiau.

Collodd teulu Liz, 6 Lôn Ddŵr, gefnder annwyl, Mr Gareth Parry o Lanrug, a fu farw yn ddisymwth iawn yn ystod y gwyliau. Yr oedd yn Ddirpwy-Bennaeth uchel ei barch yn Ysgol Friars. Cydymdeimlwn â'r teulu oll.

Mae nifer o bobl y pentref wedi cael anaf dros yr haf, neu wedi bod yn sâl.

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Harry Eardley, 4 Cae Bach, sydd wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd yn dilyn triniaeth.

Yn Ysbyty Eryri mae Mrs. Rhodwen Jones, 2 Cae Bach. Cafodd hithau godwm yn ei chartref rai wythnosau'n ôl.

Cafodd Idris Thomas ei daro'n wael yng Nghartref Ceris Newydd, tra'n edrych am Rose, ei briod, ar achlysur ei ben-blwydd yntau'n 90. Bu'n rhaid iddo dreulio ychydig o ddyddiau yn yr ysbyty ond, erbyn hyn, gyda gofal tyner gan y teulu, mae o'n ymdopi'n iawn gartref. Dathlodd Rose, hithau, ei phenblwydd yn 85 yr wythnos o'r blaen.

Mae Margaret Jones, 74 Bro Emrys yn Ysbyty Gwynedd, ar hyn o bryd. Brysiwch wella, Margaret. Mae pawb yn anfon eu cofion gorau atoch.

Fel y gwyddys, mam Keith, 13 Dolhelyg, ydi Margaret. Mae Awst wedi bod yn fis cymysg iawn i'r teulu. Ychydig o wythnosau'n ôl, buont yn dathlu priodas eu mab hynaf. Anfonwn ddymuniadau gorau i Daniel a Melissa, a'u mab bach.

Dathlu ddaeth i ran teulu 3 Dolhelyg ar ddiwedd y mis, wrth i Seren Unsted gyrraedd ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Bendith arnat Seren, a phob llwyddiant i ti yn dy waith. Mae eistedd yng nghadair y deintydd lawer iawn llai dirdynnol pan fyddi di o gwmpas i roi gair o gysur yn Gymraeg!

Mae Mrs Rita Jones wedi symud i fyw i Fangor. Pob bendith iti yn dy gartref newydd, Rita. Dim ond gobeithio y bydd pwy bynnag ddaw i 28 Cae Gwigin yn hoff o dyfu blodau, neu mi gollwn wledd o liw fyddai'n eli i galon pawb a basiai dy dŷ.

Croeso i 'Cap Coch', Tyddyn Cottages, i Nuala, sydd wedi symud i Dalybont o Gaergybi. Mae teulu Nuala wedi byw am nifer fawr o flynyddoedd yn Awstralia, ond un o Sir Fôn yw ei mam yn wreiddiol. Mae cred bod pobl Môn yn cael eu tynnu'n ôl i'r Fam Ynys, o le bynnag y bônt yn y byd.

Cofiw'n gynnes at Sei a Cathy, yn eu cartref newydd yn Gerlan.

Mae'n dda gennym weld bod trigolion ein pentref ni'n gofalu am ei gilydd.



Ychydig o wythnosau'n ôl, gwelwyd y stôl hon wedi'i gosod yn ddel wrth Lodge Talybont ar gyfer y sawl a ddymunai deithio efo'r bws i Landudno. Wel, pam lai? Wedi'r cwbl, mae gan teithwyr i Fangor, yr ochr arall i'r lôn, do wrth eu pennau, heb sôn am sêl! Yn anffodus, mewn llai nag awr, yr oedd rhywun wedi gweld yn dda i fynd â hi oddi yno. Ysgwn i beth oedd gwir hanes y stôl?

Ga' i ofyn yn garedig i'm cwsmeriaid am £5.50, i dalu am gopi o'r 'Llais' am y flwyddyn, a diolch iddynt, ymlaen llaw, am eu cefnogaeth? Byddai'n braf iawn cael darllenwyr newydd, felly, os gwyddoch am rywun a hoffai dderbyn ein papur bro, rhowch wybod imi, os gwelwch yn dda.

Hefyd, gawn ni apelio'n gyffredinol ar bobl yr ardal am eitemau o newyddion i'w rhoi yn Llais Ogwan yn fisol? Heb ichi roi gwybod i Nev, Jean Hughes, Bryn Awel, Rita Post neu fi, fydd yna ddim 'Newyddion o Dalybont' o gwbl.

(Diolch i Barbara am yr holl newyddion uchod.)

Capel Bethlehem

Oedfaon

Medi 23: Gweinidog; Medi 30: Parchg. Elwyn Jones, Talwrn; Hydref 7: Parchg. Gwenda Richards, Caernarfon; Hydref 14: Gweinidog; Hydref 21: Parchg. Euros Wyn Jones, Llangefni; Hydref 28: Gweinidog. Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Yr Ysgol Sul am 10 o'r gloch bob bore Sul o 9 Medi ymlaen.

Cofion

Mae Mrs Iola Williams bellach wedi ymgartrefu yng nghartref Ceris Newydd. Anfonwn ein cofion ati a hithau newydd ddathlu ei phen-blwydd. Yno hefyd mae Mrs Rose Thomas ac anfonwn ein cofion ati hithau, a hefyd at Miss Dilys Williams ym Mhlas Ogwen a Mrs Dorothy Williams ym Mhlas Hedd. Ein cofion hefyd at bawb nad ydynt yn gallu dilyn y moddion oherwydd gwaeledd neu lesgeidd.

Bwrlwm

Braf oedd cael dechrau tymor newydd ar brynhawn Iau, 5 Medi, gyda'r ffyddloniaid i gyd yn bresennol a phawb mewn hwyliau da! Cofiwch bod croeso i unrhyw un ohonoch ddod atom am sgwrs a phaned bob bythefnos. 'Does dim raid bod yn aelod o Gapel Bethlehem!



Gofalwr Eiddo
7.5 awr yr wythnos
(gyda phosibilrwydd i gynyddu oriau)

Mae Partneriaeth Ogwen yn chwilio am ofalwr eiddo rhan-amser

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â
partneriaeth@ogwen.org
01248 602131
Dyddiad Cau – 25 Medi 2018**

Chwaraeon

Noson Wobrwyo Mynydd Tigers



Max Williams - Chwaraewr y Flwyddyn.



Osian Owen - Y chwaraewr sydd wedi gwella'i sgiliau fwyaf.



Tomi Hughes - Chwaraewr y chwaraewyr.

Canlyniadau Bowllo

Dyma ganlyniadau tîm dydd Sadwrn yn ystod ail hanner y tymor.

Curo Benllech oddi cartref o 7 i 5 .Dylan a Derek Roberts yn ennill yn gyfforddus, Ioan Critchlow yn curo 21 i 20 a John Roberts ar ei orau yn ennill 21 i 3.

Colli'n drwm o 11 i 1 yn Llandudno gyda neb yn hapus ond y capten, Richard Jones, ar ôl curo 21 i 4. Sioe siomedig dros ben.

Colli wedyn yng Nghonwy o 10 i 2.Roedd tri o'n chwaraewyr ar y blaen yn dda cyn colli eu ffordd tua diwedd y gêm. Dylan a Sion Guto oedd ein buddugwyr, Dylan 21 i 11 a Sion 21 i 20.

Curo Dyserth o 7 i 5. Canlyniad da ar ôl dechrau ansicr. Brynmor yn curo 21 i 13 a Dilwyn 21 i 14.

Colli wedyn gartref o 9 i 3 yn erbyn pencampwyr eleni Treffynnon. John 21 i 9,

Dilwyn 21 i 16 a Derek 21 i 19 oedd yn fuddugol.

Roedd tîm Caernarfon yn llawer rhy gryf i'r hogiau lleol a chollwyd y gêm hon o 8 i 4. Ymdrechion Callum, John, Fred a Dylan yn cadw'n gobeithion o aros yn yr ail adran yn fyw.

Cystadleuaeth y Parau

Diolch o galon i'r holl chwaraewyr am droi i fyny ar fore gwyntog a glawog. Roedd

yr amgylchiadau yn ddifrifol ganol y bore ond dal ymlaen wnaeth pawb. Gyda'r tywydd wedi gwella daeth y chwarae i ben am 7.00 gyda John Short a Barry Harris o Biwmares yn curo Stephen Jones a Mike Burgoyne yn y rownd derfynol. Diolch i bawb gyfrannodd at lwyddiant y diwrnod trwy baratoi bwyd, rhoi tua'r raffl, a marcio a mesur yn ystod gemau.

Dilwyn Owen